

CYNNWYS

Rhagair y Prifathro.....	2
1. Rhesymau dros ddychwelyd i'r Chweched Dosbarth yng Nglantaf	3
Llwyddiannau allgyrsiol:	3
Rhesymau Cwricwlaidd.....	4
Llwyddiannau Academaidd	4
Gofal Bugeiliol a Pharatoad at Addysg Uwch/Waith.....	5
2. Disgwyliadau o Fyfyrrwyr 6ed Dosbarth Glantaf	7
3. Sut i ddewis pynciau yn y 6ed Dosbarth	9
4. Fframwaith Astudio	10
5. Pynciau a Phenaethiaid Adrannau	11
6. Gwisg Ysgol y Chweched	12
7. Polisi Derbyn i Flwyddyn 12.....	13
8. Polisi Mynediad i Flwyddyn 13	14
9. Partneriaeth 6ed Dosbarth Glantaf â Phlasmawr	15
10. Crynodeb o Gynnwys a Strwythur Asesu Pynciol.....	21
11. Nodiadau	63

Rhagair y Prifathro

Annwyl Fyfyrrwyr, Rhieni/Gwarcheidwaid

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r llawlyfr hwn i chi a hyderaf y bydd o gymorth i chi wrth wneud dewisiadau pwysig ar gyfer y dyfodol.

Mae croeso cynnes yn Chweched Dosbarth Glantaf ynghyd ag awyrgylch ac ethos gwaith cyfeillgar a phwrpasol. Mae ein hadeiladau presennol wedi cael eu hymestyn a'u gweddnewid fel bod modd, bellach, i fyfyrwyr bl 12 /13 gael mynediad i'r dechnoleg ddiweddaraf a chyfleusterau o'r radd flaenaf. Rydym yn cynnig cwricwlwm eang ynghyd â phrofiadau cyfoethog y tu allan i'r gwersi ffurfiol. Bydd cyngor parod ar gael gan athrawon a thiwtoriaid bob amser. Ein nod yw rhoi cyfle i fyfyrwyr ddatblygu'n academiaidd, yn alwedigaethol, yn bersonol ac yn gymdeithasol, ac i aeddfedu'n ddinasyddion dwyieithog a chyfrifol.

Mae gwaith ac ymroddiad myfyrwyr Chweched Dosbarth Glantaf mewn amrywiol feysydd wedi cyfrannu'n sylweddol at enw da'r ysgol dros y blynyddoedd. Disgwylwn i'n myfyrwyr ymroi i'w gwaith yn y Chweched, gymryd eu Cymreictod a'u cyfrifoldeb fel arweinwyr ymysg y disgyblion o ddifrif a mwynhau'r profiad newydd a gynigir iddynt yn yr ysgol. Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth a chydweithrediad rhieni a gwarcheidwaid yn hyn o beth.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu 'nôl ym mis Medi.

Yn ddiffuant



Alun Davies
Prifathro

1. Rhesyman dros ddychwelyd i'r Chweched Dosbarth yng Nglantaf

Mae sawl ystyriaeth. Mae Ysgol Glantaf yn rhoi'r cyfle i chi ddatblygu fel person, nid yn unig mewn cymdeithas Gymreig ond drwy ehangu gorwelion.

Llwyddiannau allgyrsiol:

- **Cerddoriaeth**

Cyngherddau, Gwasanaeth 'Carol a Chên', Cyngerdd ffarwelio y Chweched Dosbarth - Sioeau Cerdd. Eisteddfod. Enillodd aelodau o'r Chweched le yng Ngherddorfa, Bandiau a Chôr Cenedlaethol Cymru yn ogystal ag Ysgoloriaethau Cerddorol. Taith Gerdd dramor bob dwy flynedd.

- **Drama**

Llwyddiant yn yr Eisteddfodau cenedlaethol a'r Urdd ac fel rhan o gwmnïau drama annibynnol leol. Mae sawl aelod o'r Chweched wedi mynd ymlaen i ymddangos ar raglenni teledu a ffilmiau. Mae nifer wedi ennill llefydd yng Nghwmni Theatr Ieuencid Cenedlaethol Cymru a Theatr Ieuencid Cenedlaethol Prydain. Mae nifer hefyd wedi ennill Ysgoloriaethau i Golegau Drama.

- **Chwaraeon**

Timau rygbi, pêl-droed, hoci, pêl-rwyd, athletau, traws-gwlad, pêl fased, tenis, nofio a.y.b. Mae nifer o ddisgyblion y Chweched wedi cynrychioli Cymru mewn sawl gwahanol faes ac mae lluo o ddisgyblion wedi cynrychioli'r Sir. Mae tri thîm Rygbi yn y Chweched sy'n cystadlu yng nghynghrair Ysgolion Cymru ac yn chwarae bob bore Sadwrn. Rydym hefyd wedi cystadlu yng Nghwpan Ysgolion y Byd

- **Teithio**

Ieithoedd Modern: Profiad gwaith – Ffrainc a'r Almaen
Adran Gerdd: Yr Eidal, Barcelona, Malta, Portiwgal
Adran Gelf: Amsterdam, Barcelona, Paris
Adran Hanes: Prague a Berlin, Somme, Gwlad Pwyl, Gwlad Belg, Washington
Rygbi – Awstralia, De Affrica, Zimbabwe, Awstralia, Hong Kong, Seland Newydd, Canada
Sgîo – Awstria, Ffrainc
Alldeithiau – Zambia, Botswana, Borneo, Peru, India, Moroco, Twrci, Sweden.

- **Yr Urdd**

Llangrannog a Glanllyn – cyrsiau hyfforddi Swyddogion
Aelwyd yr Urdd Glantaf
Cyfle i hyfforddi timau pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, hoci
Cynnal clybiau i blant cynradd a bl. 7 ac 8

- **Amrywiol**

Cynllun Dug Caeredin

Ymweliadau â'r theatr

Siarad Cyhoeddus

Cystadleuaeth Genedlaethol y Gymdeithas Fiolegol Frenhinol

Cyfleoedd ffilmio ac actio

Cystadlaethau 'Maths Challenge'

- **Yr Ethos Cymreig**

Cyfle bob dydd i ddefnyddio'r iaith ac arwain disgyblion iau, ee Arweinwyr yr Ŵyl

'Swogs' Llangrannog gyda Blwyddyn 7 a Blwyddyn 6

Cynllun Clwb gwaith cartref

Gweithgareddau Llysoedd ee chwaraeon, trawsgwlad

Gweithgareddau Pontio blwyddyn 6 i 7.

- **Gwleidyddol**

Ffug-etholiadau

Cynhadledd trafod Materion Rhyngwladol

Ffug-gynhadledd Cenhedloedd Unedig

Senedd Ieuenctid Ewrop

Cymdeithas Ddadlau – Cystadlu yng nghystadlaethau Senedd Ieuenctid

Cyngor Ysgol

Rhesymau Cwricwlaidd

Os dychwelwch i'r Chweched Dosbarth agored yng Nglantaf, mae cyfle i chi wella eich cymwysterau academiaidd:

- Mae gennym ystod eang o bynciau i ddewis ohonynt, sawl un mewn mwy nag un golofn opsiwn, a hyd at 40 o bynciau.
- astudio ymhellach bynciau yr ydych wedi eu dilyn hyd at Safon TGAU yn barod neu ddechrau pynciau o'r newydd, boed yn Safon A, UG, BTEC, neu Bagloriaeth Cymru.
- ail-sefyll cyrsiau TGAU. Gellir ail-sefyll Cymraeg (laith), Saesneg (laith) a Mathemateg fis Tachwedd neu Ionawr (os wedi ennill o leiaf gradd D yn barod), a phynciau eraill yn yr Haf ar ddiwedd Blwyddyn 12.

Llwyddiannau Academiaidd

Os dychwelwch i'r Chweched Dosbarth yng Nglantaf, yna byddwch wedi penderfynu dychwelyd i ysgol sy'n derbyn rhai o ganlyniadau gorau yn y wlad.

Rydym yn ymhyfrydu yn y niferoedd o fyfyrwyr:

- aeth ymlaen i Addysg Uwch
- enillodd Ysgoloriaethau i Brifysgol Cymru
- gafodd gyfweliadau a chynigion i Brifysgolion Rhydychen neu Gaergrawnt.

Mae'r myfyrwyr hyn wedi astudio trawstoriad o bynciau ar draws holl adrannau'r ysgol.
Mae'r llwyddiant hyn yn galonogol dros ben ac yn arwyddocaol o gryfder pob adran.

Canlyniadau Safon A:

Blwyddyn	A - C
2009	84%
	A* - C
2010	86%
2011	80%
2012	88%
2013	86%
2014	82%
2015	83%

Gofal Bugeiliol a Pharatoad at Addysg Uwch/Waith

Drwy barhau eich addysg mewn man cyfarwydd ceir sicrwydd fod y gofal bugeiliol gofalus a chyson a geir yn Ysgol Glantaf yn parhau. Mi fydd pob myfyriwr 6ed dosbarth yn:

- cofrestru â'u hathro dosbarth bob bore
- cael y cyfle i drafod eu cynnydd mewn nosweithiau rhieni
- derbyn adroddiadau ar ymdrech a chyrhaeddiad academiaidd.

Yn ogystal â hyn yn ystod y flwyddyn neu ddwy flynedd y bydd myfyriwr yn ei dreulio yma mi fyddwn yn eu paratoi yn ofalus at y cyfnod nesaf yn eu bywydau, boed mewn sefydliad addysg uwch, prentisiaeth neu ym myd gwaith drwy:

- brofiad gwaith
- ffug-gyfweliadau
- fynychu dyddiadau agored prifysgolion ac adrannau o fewn prifysgolion
- Ysgol haf Eton
- Ysgol haf Sutton Trust
- gwrs arwain ac anwytho i'r 6ed
- fynychu cyfarfodydd am Brifysgol Caergrawnt/Rhydychen

- baratoi at arholiadau ysgoloriaethau Prifysgolion Cymru
- gyrsiau paratoi at Feddygaeth Prifysgol Nottingham ee Medlink
- ymweliad deuddydd â Phrifysgol Rhydychen
- baratoad at arholiadau mynediad prifysgolion e.e. LNAT, HAT, BMAT, UKCAT
- gyfweliadau gyrfaol – Gyrfa Cymru
- gyngor i drefnu blwyddyn GAP.

Yn ogystal â'r cyfleoedd hyn mae cyfle i bob myfyriwr ddatblygu'n bersonol gan feithrin sgiliau pellach drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau megis:

- cynorthwyo yng Nghlwb gwaith cartref Yr Adran Cynnal Dysgu
- cyngor Ysgol
- swogio yn Llangrannog bl. 7 a 6
- pwyllgor y Chweched
- gwaith gwirfoddol yn y gymuned leol fel rhan o gymhwyster y BAC
- gwobr Dug Caeredin
- etholiadau prif swyddogion
- cynllun cynnal-cyfoedion Seren
- gwaith elusennol
- cynllun 'Buddy'
- hyfforddi chwaraeon
- arwain cyngor ysgol
- cynllun darllen

2. Disgwyliadau o Fyfyrrwyr 6ed Dosbarth Glantaf

Y Person Cyflawn

Mae eich cymwysterau yn bwysig ond mae eich natur, eich personoliaeth a'ch hapusrwydd yr un mor bwysig. Ystyriwch, er enghraifft, y profiad o ymgeisio am swydd neu am le mewn Prifysgol. Bydd y sawl sydd yn cyfweld yn dod ar draws llawer gyda chymwysterau tebyg i'w gilydd ond bydd yn dewis y person sydd â'r personoliaeth fwyaf addas a'r profiadau mwyaf perthnasol. Rhaid i chi ddangos hefyd eich bod yn medru cydweithio fel aelod o dîm, cymryd cyfrifoldeb, ac ymddwyn mewn modd dibynadwy ac annibynnol. Gobeithir y gall pob myfyriwr ddatblygu'r sgiliau hyn yn ystod ei amser yn y Chweched Dosbarth.

Cyfrifoldeb yn y Chweched

Dewis yr unigolyn yw dychwelyd i Ddosbarth Chwech. Teg felly yw rhoi rhywfaint o arweiniad ynglŷn â chyfrifoldebau bywyd yn y Chweched er mwyn i'r myfyriwr fedru penderfynu a fydd yn barod i'w derbyn, cyn arwyddo cytundeb dychwelyd i'r Chweched.

Anelir at roi cyfle i bob aelod o'r Chweched ddatblygu hyd eithaf ei allu, yn academiaidd, yn allgyrsiol ac yn gymdeithasol a hynny o fewn awyrgylch Cymreig. Anelir, hefyd, at roi cymaint o ryddid barn a rhyddid ymddygiad sy'n gymesur â chyfrifoldebau tuag at gyfoedion, disgyblion iau, athrawon a phob aelod o gymuned yr ysgol.

Yn gyffredinol, felly, mae tri phrif bwynt:

- Hybu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ar bob achlysur.
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n deilwng o statws arbennig aelodaeth o'r Chweched Dosbarth.
- Ymroddiad i bob agwedd o addysg, a bod yn barod i dderbyn arweiniad ynglŷn â sefydlu patrwm cytbwys o waith ac o hamdden.

Eich cyfrifoldeb personol

Disgwylir i chi:

1. ddilyn amserlen sy'n cynnwys 15 awr yr wythnos o leiaf;
2. fod yn bresennol ac yn brydlon ym mhob gwers, gwasanaeth, cyfnod cofrestru ac unrhyw weithgaredd a drefnwyd ar eich cyfer.
3. weithio'n dawel yn y canolfannau astudio, gan sylweddoli'r hunanddisgyblaeth a'r gwaith ymchwil unigol sydd mor angenrheidiol yn y Chweched. Dylech dreulio tua 20 awr yr wythnos ar eich gwaith ysgol y tu allan i oriau gwersi.
4. gyflwyno tasgau yn brydlon ac yn rheolaidd, gan sicrhau ansawdd dda ac ymdrechu i ddileu gwendidau. Dylai pob darn o waith fod yn bwysig i chi. Mae myfyrrwyr llwyddiannus yn gwybod o brofiad am bwysigrwydd gwaith yn y Chweched Isaf.

5. reoli eich amser ymlacio, a chofio bod yr athrawon yn cadw golwg er lles yr unigolyn. Mae gennym drefn monitro fanwl. Os yw eich tiwtor personol neu'ch athro pwnc yn rhoi gwybod i chi eich bod yn perfformio o dan y lefel briodol, **cymerwch sylw**;
6. reoli eich bywyd cymdeithasol. Os cewch chi 'noson fawr' ar nos Fercher, bydd eich gwaith ar ddydd lau yn dioddef;
7. fod yn synhwyrol am waith cyflogedig. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n rhaid i bobl ifanc weithio er mwyn cadw eu hunain yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae nifer yn gweithio i gynnal bywyd cymdeithasol.

Disgwylir i chi weithio'n galed, ond mae pob cymorth a chefnogaeth ar gael.

Eich cyfrifoldeb i'r Ysgol

1. Fel disgyblion hŷn yr ysgol, mae'n hollbwysig fod y Chweched yn gosod safonau i weddill yr ysgol, a hynny mewn iaith, ymddygiad, presenoldeb, prydlondeb a gwisg. (Gweler y canllawiau ar wisg y Chweched).
2. Fe'ch anogir i gyfrannu at fywyd yr ysgol: cynrychiadau, eisteddfodau, gweithgareddau'r llysoedd, timau'r ysgol, helpu gyda'r disgyblion iau, ac yn y blaen.
3. Mae pwyllgor o Swyddogion (wedi ei seilio ar etholiad) yn gyfrifol am drefniadau a threfn y Chweched. Dyletswydd arnoch, felly, yw cefnogi a rhannu'r baich; mae pob cyfraniad yn bwysig er mwyn gweithio fel tîm.
4. Ni ddylid gadael safle'r ysgol heb arwyddo yn y gofrestr. Nid cyfyngu ar ryddid yw'r bwriad ond dilyn yr un patrwm o ddiogelwch a chwarteisi a geir ymhob sefyllfa waith. Am yr un rhesymau, mae angen llythyr oddi wrth riant neu warcheidwad i egluro unrhyw absenoldeb.
5. Gofynnir i chi ddefnyddio Uned y Chweched yn synhwyrol a gofalus, er mwyn cadw safonau'r canolfannau astudio a chyfrifiaduro.
6. Bydd y berthynas rhyngoch a'r staff yn wahanol: myfyrwyr fyddwch bellach, nid disgyblion. Parchwch hyn.

Y Cyfleusterau sydd ar gael i'r Chweched Dosbarth

Mae cyfleusterau eang ar gael ar gyfer defnydd amrywiol ein myfyrwyr – canolfan astudio a chyfrifiaduro, defnydd drwy'r dydd o'r bistro a'r ffreutur.

3. Sut i ddewis pynciau yn y 6ed Dosbarth


1. Dewiswch bynciau rydych yn gwneud yn dda ynddynt.
2. Dewiswch bynciau rydych yn eu mwynhau.
3. Ystyriwch bynciau newydd ond gofawch rhag eu dewis i gyd.
4. Byddwch yn realistig a gonest gydag eich hun - os mai graddau C ydy'r mwyafrif o'ch canlyniadau TGAU nid ydych yn debygol o gyflawni anghenion ysgolion meddygol - felly annoeth fyddai astudio 3 gwyddoniaeth rhag ofn.
5. Mae'r naid rhwng TGAU Safon A yn FAWR – cymerwch gyngor eich athrawon os fyddant yn mynegi pryderon ynglŷn â'ch gallu i ymdopi gyda'r pwnc.
6. Mae prifysgolion yn hoff o gyferbyniadau e.e. gwyddoniaeth a cherdd, iaith a màths ayyb.
7. Peidiwch dewis ar sail 'hearsay' e.e. "mae hwnna yn hawdd" – mae pawb yn wahanol.
8. Peidiwch dewis ar sail beth mae eich ffrindiau yn eu dewis - efallai y byddai'n hwyl cael eich ffrindiau yn y gwersi ond ddim llawer o ddefnydd os yn methu'r pwnc!
9. Peidiwch dewis pwnc am eich bod yn credu y bydd yn "edrych yn dda". Mae'n well ennill gradd A mewn Cymdeithaseg nag E mewn Cemeg er enghraifft.
10. Bydd PAWB yn dechrau gyda 3 neu 4 AS a Bagloriaeth Cymru, a cheisio cadw at y rhaglen astudio yma.
11. Edrychwch am gydbwysedd gwaith cwrs rhwng e
12. ich pynciau.
13. Os nad ydych yn hoff o waith cwrs PEIDIWCH dewis pynciau ac asesiad o'r fath. Ac os mae gwaith cwrs yw eich cryfder edrychwch am gyrsiau a phwyslais arno.
14. Edrychwch am bynciau sy'n gweddu i'w gilydd e.e. Economeg a Maths Ystadegau, Bioleg ac Addysg Gorfforol, Seicoleg, ac Iechyd a Gofal.
15. Os oes gennych swydd mewn golwg gwnewch eich ymchwil yn ofalus pa bynciau sy'n ddefnyddiol a pha rai sy'n HANFODOL e.e. TGAU Gwyddoniaeth dysgu cynradd*
16. Edrychwch hefyd yn ofalus ar ofynion Prifysgolion neu golegau/gweithle.
www.cam.ac/admissions/undergraduate/requirements
<<http://www.cam.ac/admissions/undergraduate/requirements>>
17. Gwiriwch lyfryn "Informed Choices" yn ardal y chweched dosbarth ar Wefan yr ysgol.

Daw'r cyngor isod gan Brifysgol Caergrawnt ac fel arfer mae'r prifysgolion gorau yn dilyn eu cyngor nhw:

- Pensaerniaeth: Y gallu i ddylunio, diddordeb mewn hanes Celf, Maths TGAU
- Computer Science: Maths lefel A
- Peirianeg: Maths Lefel A
- Y Gyfraith: pwnc sy'n datblygu eich rhesymeg (logic) e.e. màths, gwyddoniaeth, iaith fodern neu glasurol yn ogystal â phwnc trafod e.e. hanes.
- Cerdd: o leiaf gradd 5 piano
- Gwyddoniaeth Naturiol: Maths Lefel A
- Meddygaeth: Cemeg a Bioleg
- Dysgu: TGAU Gwyddoniaeth, Maths a Saesneg (graddau B) ac un pwnc cwricwlwm cenedlaethol
- Physio: Bioleg.

www.bbc.co.uk www.doyou.co.uk www.teenissues.co.uk www.careersserviceni.com

4. Fframwaith Astudio



5. Pynciau a Phenaethiaid Adrannau

Addysg Gorfforol	-	Mr R Garner
Almaeneg	-	Mrs H Watts
Astudiaethau Busnes	-	Mrs K Llewelyn
Astudiaethau Crefyddol	-	Mr I Roberts
Astudiaethau'r Cyfryngau	-	Mr W Jones
Bioleg	-	Mr D Rees
BTEC 2 & 3 Twristiaeth a Chwaraeon	-	Mr G H K Norton
CACHE Lefel 2 (Gofal Plant)	-	Mrs K Llewelyn
Celf a Dylunio	-	Mrs L Rees
Cemeg	-	Mrs C Roberts-Amos
Cerdd	-	Mrs D M Lloyd
Technoleg Cerdd a Pherfformio	-	Mr Eifion Davies (Plasmawr)
Cisco (BTEC)	-	Mr M Mathias
Cyfrifiadureg	-	Mr H Marshall
Cymdeithaseg	-	Mrs B Newis
D & T Dylunio Cynnyrch	-	Mr H Pritchard
Daearyddiaeth	-	Mrs R Norton
Drama ac Astudiaethau 'r Theatr	-	Mr W Jones
Economeg	-	Mrs J Burnhill
Ffiseg	-	Mrs N Owen
Ffrangeg	-	Miss S O'Regan
Gwasanaethau Cyhoeddus	-	Mr A Morgan (Plasmawr)
Gwleidyddiaeth a Llywodraeth	-	Mrs E H Evans
Gwyddoniaeth Gymhwysol BTEC Lefel 3	-	Mrs C Roberts-Amos
Hanes	-	Mrs S Thomas
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	-	Mrs N Rees
Mathemateg	-	Mr H E Davies
Saesneg	-	Mrs M Rumming
Seicoleg	-	Mrs N Rees
Twristiaeth	-	Mr G H K Norton
BTEC 2 & 3 Twristiaeth a Chwaraeon	-	Mr G H K Norton
Y Gymraeg	-	Mr Owain Sion Williams

Fe fydd y colofnau opsiwn yn barod erbyn diwedd mis Mawrth.

Llawlyfr y Gŵed 2016/2018

6. Gwisg Ysgol y Chweched

MERCHED

- 1) Esgidiau Du (dim trainers na boots)
- 2) Sanau plaen tywyll
- 3) Sgert neu drowsus du o doriad synhwyrol (Dim chinos/denim/ cords/combats/legins)
- 4) Crys Gwyn
- 5) Tei'r Chweched
- 6) Siwmpwr/Cardigan-gwddf V Ddu â bathodyn y Chweched i'w prynu o siop YC Sports.
(Dim patrwm na logo)
- 7) Cot Ddu (Nid Denim); dim "hoodies"
- 8) Os gwisgir tlysau a cholur a chorff dlysau dylsent fod yn gynnil

BECHGYN

- 1) Esgidiau Du (dim trainers)
- 2) Sanau plaen tywyll
- 3) Trowsus du o doriad synhwyrol (Dim chinos/denim/cords/ combats)
- 4) Crys gwyn
- 5) Tei'r Chweched
- 6) Siwmpwr/Cardigan – gwddf V Du (Dim patrwm na logo)
- 7) Cot Ddu (Nid Denim); dim "hoodies"
- 8) Os gwisgir tlysau a chorff dlysau dylsent fod yn gynnil

7. Polisi Derbyn i Flwyddyn 12

Mae blynyddoedd 12 a 13 yn agored i fyfyrwyr sy'n cwrdd â holl ofynion Fframwaith Dychwelyd i'r 6ed. Disgwylir i bob darpar fyfyrwr gwrdd â'r:

- a. Gofynion academiaidd a'r
- b. Gofynion personol

Gofynion Academiaidd

Graddau TGAU	Derbynnir disgyblion sydd â'r canlyniadau hyn i wneud y cyrsiau canlynol	Amodau Ychwanegol
O dan 5 C	- Lefel 2 Twristiaeth - Lefel 2 Chwaraeon - CACHE Lefel 2 (Gofal Plant) - Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol - Tystysgrif Addysg Uwch Glantaf	Trwy gymeradwyaeth 4 athro sydd wedi dysgu'r disgybl ym mlynnyddoedd 10 ac 11
5 C neu'n uwch neu Glôd mewn cymhwyster Lefel 2	Cyrsiau Lefel A a Bagloriaeth Cymru Uwch BTEC Lefel 3	Disgwylir Gradd C neu uwch TGAU mewn pwnc perthnasol i'r pwnc Lefel A.

Gofynion Personol

Mae'r myfyrwr wedi:

- Cydymffurfio â disgwyliadau'r ysgol hon (neu ysgol arall) yn gyson ym mlynnyddoedd 7 – 11.
- Dangos parch at eraill a'u heiddo mewn gwersi a thu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Ar ddisgreshwn y Pennaeth yn unig ganiateir i fyfyrwr gofrestru i'r 6ed ar ôl diwedd mis Medi.

Mi fydd penderfyniad y Pennaeth yn derfynol.

8. Polisi Mynediad i Flwyddyn 13

Disgwylir i fyfyrwyr blwyddyn 12 sydd am barhau i flwyddyn 13 gyflawni'r disgwyliadau isod ym mlwyddyn 12:

- Mynychu holl wersi'r pynciau (gan dderbyn y bydd ambell eithriad)
- Cyflwyno gwaith yn brydlon, boed yn ymarferion, traethodau, gwaith cwrs, cyflwyniadau, gwaith ymchwil ayb
- Gweithio'n gyson a chydwybodol.
- Ymdrechu i'r eithaf i gyrraedd potensial.
- **Ennill graddau parchus yn yr arholiadau modylol uwch gyfrannol sy'n adlewyrchu ymdrech a photensial yr unigolyn.**
- Defnyddio amser digyswllt yn gyfrifol a phwrpasol.
- Myfyrwyr BTEC Lefel 2 i gyrraedd safon Clod/ Clod Uchel ym mhob un o'r cyrsiau er mwyn parhau â phynciau Lefel 3 (Y pynciau sydd yn ddilyniant naturiol i'r cyrsiau BTEC)
- Ni chaiff fyfyrwyr sy'n ennill graddau isel (D, E, U) ar sail diffyg ymdrech ac ymroddiad ddychwelyd i flwyddyn 13. Bydd penderfyniad y Pennaeth yn derfynol.
- Ni chaiff fyfyrwyr sy'n ennill graddau isel ar sail diffyg ymdrech ac ymroddiad ddechrau eto ym mlwyddyn 12. Bydd penderfyniad y Pennaeth yn derfynol.

9. Partneriaeth 6ed Dosbarth Glantaf â Phlasmawr

Nod ac Amcan y Bartneriaeth

Nôd ac amcan y bartneriaeth yw sicrhau addysg a hyfforddiant o'r safon uchaf posibl drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal Caerdydd. Trwy'r bartneriaeth bydd dewis cwricwlaidd y myfyrwyr yn cael ei ehangu wrth sicrhau dilyniant addysg a hyfforddiant 14-19. Cynigir addysg effeithiol o ran datblygu sgiliau allweddol, personol a chymdeithasol y myfyrwyr. Yn ogystal nôd y bartneriaeth yw cynyddu sgiliau cyflogadwyedd ein myfyrwyr.

Y Brand

Rhagoriaeth o ran hyfedredd yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog
Lefel uchel o sgiliau allweddol
Lefel uchel o sgiliau maes-benodol (academaidd a galwedigaethol)
Ansawdd uchel sgiliau rhyngpersonol
Dinasyddion cytbwys a chyfrifol
Neb yn ddigymhwyster
Ymrwymiad at ddysgu gydol oes

Pynciau

GLANTAF	PLASMAWR
Chwaraeon (Lefel 2)	Gwasanaethau Cyhoeddus (Lefel 3)
Twristiaeth (Lefel 2)	Technoleg Cerdd (Lefel 3)
CACHE Lefel 2 (Gofal Plant)	Sbaeneg (Lefel 3)
CISCO (Lefel 3)	
Almaeneg	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	
Economeg	
Gwleidyddiaeth	

Polisi Mynediad a Bugeiliol

Gweler llawlyfr yr ysgol lle dewisir y cwrs.

Cofrestru ac anwytho i bynciau

- Gwneir hyn drwy drafodaeth rhwng Penaethiaid 6ed y ddwy ysgol.:
- Cofrestrir ar gyfer mynediad i'r 6ed ar gyfer Medi 2016 yng Nglantaf ar Ddydd Mawrth, Mehefin 21^{ain} 2016.
- Cofrestrir ym Mhlasmawr ar ddydd cyntaf Blwyddyn 12, ym mis Medi 2016.
- Rhaid i bob ymholiad am le ar gwrs yn y chwaer-ysgol fynd drwy Bennaeth 6ed y fam-ysgol yn y lle cyntaf
- Rhoddir cyfle yn ystod y diwrnod anwytho i'r Myfyrwyr fynychu y chwaer-ysgol lle ceir cyfle i gwrdd â'r athrawon a derbyn unrhyw waith papur e.e. amserlenni a threfniadau trafniadaeth ayyb

Polisi Disgyblaeth

- Disgwylir i fyfyrwyr ymddwyn yn ôl canllawiau ymddygiad y chwaer-ysgol pan ei fod ef/hi yno yn mynychu gwersi.
- Mae amodau derbyn EMA y ddwy Ysgol yr un peth. Hysbysir y chwaer-ysgol o ddiffyg presenoldeb, ymdrech a gwaith
- Mi fydd yr holl gwynion am fyfyrwyr, eu gwaith, ymddygiad, presenoldeb a phrydlondeb yn mynd at Bennaeth 6ed y ddwy Ysgol
- Mi fydd gan y ddwy ysgol eu gweithdrefnau eu hunain i ddelio â chwynion ond mewn egwyddor mi fyddant yn dilyn camau yr ysgol lle mae'r cwrs yn cael ei ddysgu

Cam 1 Rhybudd gan athro'r pwnc

Cam 2 Llythyr Cyfeirio at gartref y myfyriwr gan yr athro pwnc / Pennaeth adran a chopi at Bennaeth 6ed yr Ysgol hynny fydd yn trosglwyddo'r wybodaeth i Bennaeth 6ed yr Ysgol arall.

Cam 3 Trefnu cyfarfod ar y ffôn / mewn person gyda riant / warcheidwad y myfyriwr gan Bennaeth 6ed y fam-ysgol

Cam 4 Dilynnir systemau cosbi y fam-ysgol.

Polisi absenoldeb y myfyriwr

Dyletswydd y myfyriwr yw trosglwyddo neges i'r ysgol i hysbysu o absenoldeb o ganlyniad i salwch. Mae hyn yn hanfodol ar ddiwrnod taith neu ymweliad.

Trafnidiaeth

Hyd bo'r modd trefnir cludiant ar gyfer cyrsiau'r bartneriaeth

Polisi cofrestru a sefyll arholiadau

Sefir arholiadau'r pwnc yn yr ysgol lle addysgir y pwnc

Newidiadau i amserlen arferol

Mi fydd yr ysgolion yn hysbysu myfyrwyr ar ddechrau bob tymor o unrhyw ddigwyddiadau yn yr ysgol fydd yn golygu na fydd gwersi arferol e.e. HMS, diwrnod ABCH, gŵyl a chyfnodau astudio o adref.

Polisi mynediad i Flwyddyn 13

Nid oes hawl awtomatig i barhau i flwyddyn 13. Gweler polisiau mynediad y ddwy ysgol

Atodiad

O ganlyniad i ddewis rhydd myfyriwr efallai y bydd y Pennaeth yn penderfynu dileu cyrsiau o'r cynnig. Gall hyn ddigwydd pan bod niferoedd myfyrwyr sy'n dewis astudio cwrs yn isel iawn a byddai'n rhy gostus i ddysgu'r cwrs i nifer fach o ddysgwyr.

Efallai hefyd y bydd adegau pan na fydd dewis y myfyriwr yn bosibl megis:

- ♦ Mae myfyriwr yn dewis cwrs nad yw'n addas ar gyfer ei allu academiaidd.
- ♦ Gall fod gwrthdaro â dewisiadau eraill y mae'r myfyriwr wedi ei wneud.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am newidiadau mewn cyrsiau fel rhan o'r wybodaeth rydym yn rhoi allan yn rheolaidd i fyfyrwyr a rhieni.

Pan fydd gan unigolyn bryderon penodol y byddwn yn eu trafod yn anffurfiol i geisio eu datrys.

Gallwch ofyn i'r Pennaeth am adolygiad o unrhyw benderfyniad.

Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol (Ôl 16)

Ffocws canolog Bagloriaeth Genedlaethol (Ôl 16) Cymru yw darparu cyfrwng i ddysgwyr ôl 16 lefel 2 atgyfnerthu a meithrin sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Bydd y cymhwyster yn helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer y dyfodol drwy feithrin sgiliau, priodoleddau a mathau o ymddygiad a gaiff ei gwerthfawrogi gan addysgwyr a ddarpar gyflogwyr.

Drwy Fagloriaeth Cymru, bydd y dysgwyr yn codi eu lefelau sgiliau a'u hyder gan eu galluogi a'u grymuso i ymgymryd â'u rôl fel dinasyddion cyfrifol a gweithgar o fewn cymdeithas amrywiol. Mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gymdeithas, y gymuned maent yn byw ynddi ac ymwybyddiaeth o faterion, digwyddiadau a pherspectifau byd-eang.

Cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau	Pwysoli	Sgiliau a Asesir	Asesiad Mewnol	Safoni Allanol
Project Unigol	50%	• Cynllunio a Threfnu • Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau • Llythrennedd • Rhifedd • Llythrennedd Ddigidol	✓	✓
Her Menter a Chyflogadwyedd	20%	• Creadigedd ac Arloesi • Effeithiolrwydd Personol • Rhifedd • Llythrennedd Ddigidol	✓	✓
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	15%	• Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau • Creadigedd ac Arloesi • Llythrennedd	✓	✓
Her y Gymuned	15%	• Cynllunio a Threfnu • Effeithiolrwydd Personol	✓	✓

Bagloriaeth Genedlaethol (ôl-16) Cymru CBAC

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Genedlaethol (ôl-16) Cymru, rhaid i'r dysgwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau ar lefel Genedlaethol (ôl-16) ynghyd â Chymwysterau Ategol penodol.

Rhaid cyflawni'r Cymwysterau Ategol **naill ai'n** ystod y cwrs **neu'n** flaenorol:

- TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith ar raddau A* - C
(Bydd yr hen TGAU Saesneg Iaith a TGAU Cymraeg Iaith yn cael eu derbyn ar raddau A* - C neu derbynnir Sgiliau Hanfodol Cymru lefel 2 Cyfathrebu hyd at fis Tachwedd 2016);
- TGAU Mathemateg – Rhifedd ar raddau A* - C
(Bydd yr hen TGAU Mathemateg ar raddau A* - C yn cael ei derbyn neu derbynnir Sgiliau Hanfodol Cymru lefel 2 Cymhwysio Rhif hyd at fis Tachwedd 2016).

Rhaid ennill y Cymwysterau Ategol canlynol tra'n dilyn rhaglen Bagloriaeth Genedlaethol (ôl-16) Cymru:

- Uchafswm o bedwar cymhwyster Lefel 2 gyda chyfanswm o o leiaf 300 ODA.

BAGLORIAETH CYMRU UWCH (ôl – 16)

Ffocws canolog Bagloriaeth Cymru ar lefel Uwch yw darparu cyfrwng i ddysgwyr lefel 3 atgyfnerthu a meithrin sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Bydd y cymhwyster yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau, priodoleddau ac ymddygiad mwy cymhleth ac yn rhoi'r profiadau y maent eu hangen i'w paratoi'n well at gam nesaf eu bywyd, p'un a ydynt yn penderfynu mynd i brifysgol neu i weithio.

Drwy Fagloriaeth Cymru, bydd y dysgwyr yn codi eu lefelau sgiliau a'u hyder gan eu galluogi i ymgymryd â'u rôl fel dinasyddion cyfrifol a gweithgar o fewn cymdeithas amrywiol. Mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gymdeithas, y gymuned maent yn byw ynddi ac ymwybyddiaeth o faterion, digwyddiadau a pherspectifau byd-eang.

Cydrannau'r Dystysgrif Her Sgiliau	Pwysoli	Sgiliau a Asesir	Asesiad Mewnol	Safoni Allanol
Project Unigol	50%	• Llythrennedd • Rhifedd • Llythrennedd Ddigidol • Cynllunio a Threfnu • Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau	✓	✓
Her Menter a Chyflogadwyedd	20%	• Rhifedd • Llythrennedd Ddigidol • Creadigedd ac Arloesi • Effeithiolrwydd Personol	✓	✓
Her Dinasyddiaeth Fyd-eang	15%	• Llythrennedd • Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau • Creadigedd ac Arloesi	✓	✓
Her y Gymuned	15%	• Cynllunio a Threfnu • Effeithiolrwydd Personol	✓	✓

2.2 Bagloriaeth Uwch Cymru CBAC

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Uwch Cymru, rhaid i'r dysgwyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau safon Uwch ynghyd â Chymwysterau Ategol:

Rhaid cyflawni'r Cymwysterau Ategol canlynol **naill ai'n** ystod y cwrs **neu'n** flaenorol:

- TGAU Cymraeg Iaith neu TGAU Saesneg Iaith ar raddau A* - C
(Neu derbynnir yr hen TGAU Saesneg Iaith a TGAU Cymraeg Iaith ar raddau A* - C);
- TGAU Mathemateg – Rhifedd ar raddau A* - C
(Neu derbynnir TGAU Mathemateg ar raddau A* - C);

Rhaid ennill un o'r dewisiadau canlynol o Gymwysterau Ategol tra'n dilyn y rhaglen Bagloriaeth Uwch Cymru:

- **Dwy** safon Uwch ar raddau A* - E;
- **Un** safon Uwch ar raddau A* - E a Llwyddiant ar **un** cymhwyster galwedigaethol lefel 3 o o leiaf 300 ODA;
- Llwyddiant ar **un** neu **ddau** gymhwyster galwedigaethol lefel 3 gyda chyfanswm o o leiaf 600 ODA.

10. Crynodeb o Gynnwys a Strwythur Asesu Pynciol

ADDYSG GORFFFOROL

- Oherwydd natur y pwnc, mae'n orfodol eu bod yn cymryd rhan yn wythnosol yn y gweithgaredd a ddewiswyd ganddynt er mwyn datblygu eu perfformiad.
- Disgwylir lefel uchel o ymroddiad tuag at weithgareddau chwaraeon yr ysgol yn ogystal â'r gwersi.
- Mae'n hanfodol i brynu cit Addysg Gorfforol lefel Ac yn ogystal â'i wisgo i bob gweithgaredd ymarferol lefel A.

Amlinelliad o'r Cyrsiau (UG ac U2)

AS: (2 Uned)

PE1:-

Gwella Perfformiad mewn Addysg Gorfforol

Asesiad mewnol (safoni allanol) – Perfformiad Ymarferol – (30% o'r UG)
Proffil Perfformiad Personol – (10% o'r UG)
Hyfforddi neu Ddyfarnu – (10% o'r UG)

PE2:-

Dulliau Bywiog o Fyw ac Addysg Gorfforol

Mae'r uned yma yn cynnwys:

- Dewisiadau o ran dull o fyw
- Beth sydd ar gael o ran gweithgaredd corfforol
- Pam mae pobl yn gwneud dewisiadau arbennig?
- Manteision corfforol, seicolegol a thechnegol
- Maeth
- Manteision o ran dull o fyw

Asesiad Allanol (50% o'r UG) – Cwestiynau strwythuredig gorfodol ynghyd ag un cwestiwn lle y mae'n gofyn ysgrifennu'n estynedig (1 awr 45 munud)

Manyldeb U2 (Cynnwys manyldeb yr UG a dwy uned ychwanegol)

Trosodd.....

PE3:-**Mireinio Perfformiad Mewn Addysg Gorfforol**

Asesiad Mewnol (safoni allanol) – Perfformiad Ymarferol –
(17.5% o'r Safon Uwch)

Ymchwil Ymchwiliol -
(7.5% o'r Safon Uwch)

PE4:-**Perfformiad, Darpariaeth a Chyfranogiad mewn Addysg Gorfforol**

Mae'r uned yma yn cynnwys:

- Dadansoddi Perfformiad
- Iechyd y Genedl
- Rheoli Straen
- Cymhelliant
- Materion Cyfoes/Cymdeithasol
- Llwybrau
- Cefnogaeth
- Gwahaniaethu Cymdeithasol
- Masnacheiddio
- Datblygiadau Technegol

Asesiad Allanol – Adran A – Cwestiynau strwythuredig gorfodol (15% o'r
Safon Uwch)

Adran B – Un cwestiwn yn gofyn am ysgrifennu estynedig o
ddewis o ddau (10% o'r Safon Uwch)
(Papur 2 awr)

ALMAENEG

Amlinelliad o'r cwrs UG ac A2:

Bydd y cwrs yn:

- datblygu dealltwriaeth y disgybl o'r iaith Almaeneg
- ei alluogi i gyfathrebu'n hyderus ac yn effeithiol yn Almaeneg
- galluogi'r disgybl i ddatblygu ei ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gymdeithas gyfoes, a diwylliant gwledydd Almaeneg eu hiaith wrth astudio themâu penodol (gweler isod).

UG:-

Hamdden a dulliau o fyw (e.e. twristiaeth a chwaraeon)

Yr unigolyn a chymdeithas (e.e. diwylliant yr ifanc, addysg)

A2:-

Materion amgylcheddol (e.e. llygredd, cynhesu byd-eang, egniau adnewyddadwy)

Materion cymdeithasol a gwleidyddol (e.e. rôl y cyfryngau, mewnfudo)

Sylwer

- Profiad gwaith yn yr Almaen ar gael ar gyfer UG ac A2.

Strwythur Asesu:

2 flynedd – 4 uned

Y flwyddyn gyntaf:

UG:-

GN1: Arholiad llafar (15 munud) 40% o'r UG (20% o'r Safon Uwch)

GN2: Gwrando ac ymateb a darllen a deall (3 awr) 60% o'r UG (30% o'r Safon Uwch)

Yr ail flwyddyn:

A2:-

GN3: Arholiad llafar (15-20 munud) 40% o A2 (20% o'r Safon Uwch)

GN4: Darllen, deall ac ysgrifennu (3 awr) 60% o A2 (30% o'r Safon Uwch)

***Mae'r fanyleb newydd yn cael ei thrafod ar hyn o bryd
a bydd y wybodaeth ddiweddaraf
yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosib.***

ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

Amlinelliad o'r cwrs UG ac A2:

UG

- **Athroniaeth y Dwyrain - Bwdhaeth** - 50% o UG. Cyfle i ddysgu am grefydd ac athroniaeth o'r dwyrain. Crefydd sy'n wahanol i weddill crefyddau mawr y byd gan nad oes ganddi Dduw. Edrychir ar hanes bywyd y Bwdha, credoau ac arferion y grefydd a chyfle i feithrin a deall sgiliau myfyrio.
- **Crefydd mewn Cymdeithas Gyfoes** - 50% o UG. Cyflwyniad i faterion cyfoes ac ymateb crefyddau iddynt. Mae'r modiwl yn cynnwys 4 uned. Uned 1 - Moeseg - Astudir pynciau meddygol ac amgylcheddol, megis ewthanasia a hawliau anifeiliaid. Uned 2 - Crefydd yn y Cyfryngau - Astudio sut mae crefydd a moeseg yn cael eu dehongli o fewn y cyfryngau - astudir y defnydd o grefydd o fewn operâu sebon a chyfres y Simpsons. Uned 3 - Cymdeithaseg Crefydd - Ystyrir y ffactorau sydd dros seciwlareiddio ac fe astudir yr hyn a olyga ffundamentaliaeth mudiadau crefyddol newydd. Uned 4 - Seicoleg Crefydd - Astudir syniadau cymdeithasegol a seicolegol am grefydd e.e. syniadau Freud a Jung. Ydyw crefydd yn ganlyniad meddwl iach neu yn niwrosis.

A2

- **Bwdhaeth** 50%. Cyfle i ddyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth o Fwdhaeth. Pwysleisir ar ehangder arferion a chredoau Bwdhaidd yn fyd-eang.
- **Synoptig** 50% - Bywyd, Marwolaeth a Bywyd ar ôl Marwolaeth.
Bydd y disgyblion yn astudio gwahanol greddoau am fywyd a bywyd ar ôl marwolaeth o fewn amryw o grefyddau.

Strwythur Asesu:

Bydd disgwyl i'r myfyrwyr sefyll 2 arholiad.

Arholiad Crefydd yn y Gymdeithas Gyfoes a Bwdhaeth – Mehefin.

Hyd pob arholiad – 1 awr 45 munud.

Dim Gwaith Cwrs.

Darllen

"Buddhism" – Denise Cash

Buddhism – Dominique Side.

Bwdhaeth ar gyfer myfyrwyr UG – Wendy Dossett (UWIC)

Crefydd mewn Cymdeithas Gyfoes – Wendy Dossett, Karl Lawson, Roger Owen, Andrew Pearce (UWIC)

The Gospel According to the Simpsons – Mark Pinsky

***Mae'r fanyleb newydd yn cael ei thrafod ar hyn o bryd
a bydd y wybodaeth ddiweddaraf
yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosib.***

ASTUDIAETHAU'R CYFRYNGAU

Amlinelliad o gyrsiau UG ac Uwch:

Pedair uned gyfartal eu marciau. Dwy ar gyfer UG a dwy ar gyfer yr arholiad Uwch.

UG:-

Arholiad ysgrifenedig MS1: (2½ awr)

- Mae cwestiwn un yn gofyn am ddadansoddiad o destun clyweledol neu wedi ei argraffu e.e. clawr cylchgrawn, dilyniannau teitl ac yn y blaen.
- Bydd cwestiynau dau a thri wedi eu selio ar gynrychiolaeth a materion cynulleidfa; is-rennir lle bo'r angen.

Gwaith Cwrs MS2

Byd ymgeiswyr yn creu tri darn o waith mewn cyswllt â'i gilydd.

- darn cyn-gynhyrchu yn adlewyrchu ymchwil a thechnegau cynllunio = 20%
- darn cynhyrchu a ddatblygir o'r cyn-gynhyrchu = 40%
- adroddiad 1200 – 1600 o eiriau = 40%

A2:

Gwaith Cwrs MS3

Disgwylir i'r ymgeiswyr greu tri darn o waith mewn cyswllt â'i gilydd.

- Archwiliad unigolyn ar sail ymchwil (1400 – 1800 o eiriau)
- Gwaith cynhyrchu (yn dilyn o'r archwiliad)
- Gwerthusiad cryno sy'n trafod sut y mae'r cynhyrchu wedi codi o'r cysyniad cyfryngol arbennig (500 – 700 o eiriau)







Arholiad ysgrifenedig MS4:

Bydd ymgeiswyr yn astudio tri thestun o fewn tri gwahanol ddiwydiant cyfryngol.

- Rhaid ateb tri chwestiwn gan ddefnyddio diwydiant gwahanol ar gyfer pob un cwestiwn.
- Adran A: wedi ei selio ar y testunau - dewis allan o ddau gwestiwn.
- Adran B: wedi ei selio ar faterion diwydiant a chynulleidfaoedd – dewis allan o ddau gwestiwn

YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF

LEFEL AS/ A BIOLEG 2016-18



PAM BIOLEG?

- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol prosesau bywyd ar y ddaear.
- Sail ardderchog ar gyfer astudiaeth uwch e.e. gradd yn "Geneteg, Firoleg, Microbioleg, Fferylliaeth, Ystadegau, Sŵoleg, Botaneg, Gwyddoniaeth amgylcheddol, Nyrsio, Therapi yn y gwaith, Biochemeg, Ffisioleg, Gwyddoniaeth Nerfau, Biotechnoleg, Y Gyfraith" a.y.b.
- Lefel A safonol sy'n hyrwyddo sgiliau datrys problemau a gwaith ymarferol.
- Yn orfodol ar gyfer y cyrsiau Meddygaeth, Deintyddiaeth, Milfeddygaeth a Ffisiotherapi.
- Nodiadau Lliw a gwerslyfrau cynhwysfawr.
- Labordy Lefel A Bioleg newydd.
- Canlyniadau da iawn athrawon Ffantastig!!!!

MODWL1

Bio cemegion
Adeiledd Celloedd
Cellbilenni
Ensymau
Asidau Niwcleic
Mitosis a Meiosis

Arholiad B1
1 awr 30 mun Haf 2016
Gwerth 20% o Lefel A

MODWL 2

Dosbarthu ac Esblygiad
Cyfnewid Nwyon
Cylchrediad Gwaed
Cludiant Planhigion
Maethiad a Parasitiedd

Arholiad B2
1awr 30 mun Meh 2016
Gwerth 20% o Lefel A

Modwl 3

Biocemeg Resbiradaeth
Biocemeg Ffotosynthesis
Microbioleg
Poblogaethau ac Ecosystemau
Effaith dyn ar yr amgylchedd
Arennau
System Nerfol

Arholiad B3
1awr 45mun Haf 2017
Gwerth 25% o Lefel A

Modwl 4

Amrywiad Geneteg ac
Esblygiad
Atgenhedlu Rhywiol
Clonio
Technoleg Genynnol

Dewis 1 o 3 Opsiwn
a System Imiwn a Clefydau
b Y Sgerbwdd a'r Cyhyrau
c Ymddygiad a Bioleg Nerfau

Arholiad B4
1Awr 45mun Meh 2017
Gwerth 25% o Lefel A








Gwaith Ymarferol

Gwaith Microsgop

Arholiad Ymarferol
3 Awr Haf 2017

Gwerth 10% o'r
Lefel A

	♂ gametes				
	R Y	r y	R Y	r y	
R Y					
r y					
R Y					
r y					



BUSNES [TAG UG A SAFON UWCH]

Dyma gwrs newydd o fis Medi 2015. Fe'i gelwir yn Busnes bellach yn hytrach nag Astudiaethau Busnes. Mae'r fanyleb wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned ym mlwyddyn 12 [UG] a 2 uned ym mlwyddyn 13 [U2].

Anogir y disgyblion i ddatblygu brwdfrydedd ar gyfer astudio busnes a chael dealltwriaeth gyfannol o fusnes mewn cyd-destunau amrywiol. Cyflwynir iddynt hefyd ddealltwriaeth feirniadol o gyfundrefnau busnes a'u gallu i gwrdd ag anghenion a chwenychiadau'r gymdeithas. Erbyn diwedd y cwrs disgwylir bod ganddynt gaffael ar amrywiaeth o sgiliau busnes ar gyfer gwneud penderfyniadau a datrys problemau. Bydd modd iddynt hefyd i ddefnyddio sgiliau rhifiadol mewn cyd-destun busnes amrywiol. Cyflwynir y dysgwyr i'r amgylchedd busnes dynamig a phwysigrwydd gweithgaredd entrepreneuraidd wrth greu cyfleoedd busnes a chynnal twf busnes. Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i feithrin amrywiaeth eang o'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar gyfer addysg uwch a chyflogaeth. Canolbwyntir ar fagu brwdfrydedd am astudio busnes gan ddefnyddio cyd-destunau cyfoes, sy'n caniatáu i ddysgwyr ddod i werthfawrogi pa mor strategol, cymhleth a chydberthynol yw natur materion busnes o bersbectif lleol i fyd-eang.

Nid yw'n hanfodol bod y disgybl wedi astudio Busnes ar gyfer lefel TGAU.

CYNNWYS Y CWRS

UG Uned 1	UG Uned 2	U2 Uned 3	U2 Uned 4
Cyfleoedd Busnes • Mentrwr • Cynlluniau Busnes • Marchnadoedd • Ymchwil • Strwythur Busnes • Lleoliad • Cyllid • Derbyniadau a chostau	Swyddogaethau Busnes • Marchnata • Cyllid • Adnoddau Dynol • Rheoli gweithdrefnau	Dadansoddi Busnes a Strategaeth • Dadansoddi data • Gwerthuso'r farchnad • Rhagolwg gwerthiant • Nodau/amcanion • Gwerthuso perfformiad ariannol • Strategaethau • Gwerthuso buddsoddiadau	Busnes mewn Byd sy'n Newid • Newid • Rheoli risg • PESTEL • Moeseg • Masnach rhyngwladol • Globaleiddio • Yr Undeb Ewropeaidd

Caiff y gwaith ei asesu fel a ganlyn

UG

Uned 1 = Arholiad ysgrifenedig 1 awr 15 munud [60 marc] 15% o'r cymhwyster

Uned 2 = Arholiad ysgrifenedig 2 awr [80 marc] 25% o'r cymhwyster

U2

Uned 3 = Arholiad ysgrifenedig 2 awr 15 munud [80 marc] 30% o'r cymhwyster

Uned 4 = Arholiad ysgrifenedig 2 awr 15 munud [80 marc] 30% o'r cymhwyster

Bydd y disgybl yn cael ei asesu drwy draethodau, cwestiynau ymateb i ddata byr a rhai estynedig ynghyd â phroffion.

CACHE LEFEL 2

Diploma mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i helpu dysgwyr ôl 16 i adeiladu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc o'u genedigaeth hyd 19 mlwydd oed. Mae'n ymdrin ag ystod amrywiol o rolau swydd a meysydd galwedigaethol o fewn lleoliadau plant gan gynnwys blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol.

Mae'r cwrs gwerth 39 credyd. Cwrs blwyddyn ydyw ac fe all y dysgwyr symud ymlaen i'r rolau swydd canlynol:

- Cynorthwy-wyr cyn-ysgol
- Cynorthwy-wyr meithrin
- Cynorthwy-wyr creche
- Gweithiwr gofal plant tu allan i'r ysgol
- Cynorthwy-wyr Cylch Meithrin

Fe all hefyd arwain at symud ymlaen i gwrs Lefel 3.

Bydd yr holl unedau yn cael eu hasesu'n fewnol gan ddefnyddio ystod o ddulliau a allai gynnwys: arsylwi uniongyrchol o fewn y gweithle, portffolio o dystiolaeth ac aseiniadau ysgrifenedig.

Bydd disgwyl i'r myfyrwyr gyflawni o leiaf 280 o oriau ar brofiad gwaith mewn amgylchedd gwaith real ee ysgolion cynradd neu feithrinfeydd lleol. Golyga hyn y bydd y myfyrwyr yn yr ysgol am ddau ddiwrnod ac ar leoliadau profiad gwaith am dri diwrnod bob wythnos.

Bydd angen cwblhau 15 uned yn ystod y flwyddyn yn trafod pynciau megis:

- Datblygiad plentyn a pherson ifanc
- Cyfathrebu mewn lleoliadau ieuchyd, gofal cymdeithasol neu blant a phobl ifanc
- Deall sut i ddiogelu lles plant a phobl ifanc
- Cyfrannu at ieuchyd a diogelwch plant a phobl ifanc
- Deall gwaith partneriaeth mewn gwasanaethau plant a phobl ifanc

Gwaith cwrs a gwaith ymarferol yn unig yw cynnwys y cymhwyster hwn, nid oes arholiad. Bydd angen DBS ar y disgyblion cyn y bydd modd iddynt fynd allan i leoliadau profiad gwaith.

CELF A DYLUNIO (UWCH GYFRANNOL)

Amlinelliad o'r cwrs UG :

Un uned sydd i'r cwrs UG mae'n cyfri 40% o'r radd derfynol.

Gwaith Cwrs:

Mae'r cwrs UG yn rhoi'r cyfle i'r disgyblion ddatblygu themâu sy'n apelio atynt ar gyfer yr uned ac i weithio mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau fel y dymunant. Pwysleisir pwysigrwydd dylunio o fywyd, casglu ymchwil llaw gyntaf a datblygu syniadau/gwaith o brofiadau a safbwyntiau personol. Mae amrywiaeth o dechnegau yn cael eu cynnig, o waith peintio traddodiadol i ffotograffiaeth a ffilm i decstilau a dylunio masnachol. Mae'r gwaith gorffenedig yn cael ei gefnogi gan ymchwil, dadansoddi a datblygu trylwyr.

Strwythur Asesu:

Gwaith Cwrs:

Uned 1: Ymholiad Creadigol Personol. Cyfanswm o 160 o farciau.

Mae'r cwrs yn cael ei asesu o dan bedair ffynhonnell, sef:

AA1: Y gallu i ddatblygu syniadau drwy ymchwiliadau. (40)

AA2: Y gallu i archwilio a dewis adnoddau. (40)

AA3: Y gallu i gofnodi syniadau ac arsylwadau. (40)

AA4: Y gallu i gyflwyno ymateb personol ac ystyrlon. (40)

CEMEG

Amlinelliad o'r cyrsiau UG ac A2

UG

Uned 1 – (20%)

Adeiledd mater, Adweithiau syml a Iaith Cemeg.

Uned 2 – (20%)

Egni, Cyfradd a Chemeg Cyfansoddion Carbon.

A2

Uned 3 – (25%)

Cemeg Ffisegol ac Anorganig.

Uned 4 – (25%)

Cemeg Organig a Dadansoddi.

Uned 5 – (10%)

Arholiad Ymarferol.

STRWYTHUR ASESU

UG (40%)

Uned 1 a 2 - Arholiad ysgrifenedig 1awr 30munud

A2 (60%)

Uned 3 a 4 - Arholiad ysgrifenedig 1awr 45munud gyda rhai elfennau synoptig.

Uned 5 – 1 arholiad ymarferol i'w gyflawni ar ddyddiad penodol ym mlwyddyn 13.

Gwybodaeth Ychwanegol

Dylai'r dysgwyr fod yn barod i gymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n cael eu pennu mewn amrediad o gyd-destunau damcaniaethol, ymarferol, diwydiannol ac amgylcheddol.

Mae tasgau ymarferol penodol y mae'n rhaid i ddysgwyr eu cyflawni yn ystod y cwrs er mwyn iddynt gael eu paratoi'n briodol at yr arholiadau ysgrifenedig. Byddent yn cadw cofnod anffurfiol o'r holl waith ymarferol yn ystod y flwyddyn.

CERDD

Amlinelliad o'r cwrs UG ac A2 – (Pob arholiad/gwaith cwrs i'w gyflwyno yn Ebrill/Mai.

UG:- 3 uned

MU1 Perfformio 1 15% Asesiad allanol

Perfformiad unigol a/neu ensemble

- Perfformiad 8-10 munud
- Dylai un darn gysylltu â maes astudiaeth arbennig
- Arholwr allanol yn asesu

MU2 Cyfansoddi 1 15% Asesiad mewnol ac allanol

2 gyfansoddiad gwrthgyferbyniol

- Cyfansoddiadau 4 – 8 munud o hyd
- Un cyfansoddiad yn amlygu technegau y traddodiad clasurol a'r llall yn gyfansoddiad rhydd

MU3 Gwerthuso 1 20% Asesiad allanol

UN papur gwrandio - 2 ran

- **Rhan 1:** 12%: 1½ awr **arholiad gwrandio**, y dyfyniadau cerddorol allan o'r 2 maes astudiaeth y penderfynir gan y ganolfan (gweithiau gosod)
- **Rhan 2:** 8%: 1 awr **gwaith clust/dadansoddi**, seiliedig ar ddyfyniadau cerddorol heb eu paratoi

Cerdd Lefel A2:-

(y 3 uned flaenorol a'r 3 uned isod.

Rhaid i bob disgybl A2 ddewis 2 uned o 15% [A] ac 1 uned o 20% [B]

MU4 [A] Perfformio 2 15% Asesiad allanol

Perfformiad unigol a/neu ensemble

- Perfformiad 10-12 munud
- Un perfformiad i gysylltu â'r maes astudiaeth newydd – (cerddoriaeth 20fed ganrif a'r 21ain)
- Arholwr allanol yn asesu

MU4 [B] Perfformio 2/3 20% Asesiad allanol

Perfformiad unigol a/neu ensemble

- Fel yr uchod ond perfformiad 16-18 munud
- Dylai un darn gysylltu â maes astudiaeth pellach

Trosodd.....

MU5 [A] Cyfansoddi 2 15% Asesiad mewnol ac allanol

2 gyfansoddiad gwrthgyferbyniol

- Cyfansoddiadau 6 – 10 munud
- Un cyfansoddiad yn amlygu technegau y traddodiad clasurol a'r llall yn gyfansoddiad rhydd, arbrofol
- Un cyfansoddiad i gysylltu â'r maes astudiaeth newydd – (cerddoriaeth 20fed ganrif a'r 21ain)

MU5 [B] Cyfansoddi 2/3 20% Asesiad mewnol ac allanol

3 cyfansoddiad gwrthgyferbyniol

- Manylion uchod – cyfansoddiadau 12 – 18 munud o hyd yn awr

MU6 [A] Gwerthuso 2 15% Asesiad allanol

Un papur arholiad ysgrifenedig mewn 2 ran (2¼ awr)

- Rhan 1: 6%: ¾ awr **papur gwrandio** - dyfyniadau heb eu paratoi o gerddoriaeth 20fed ganrif/21ain
- Rhan 2: 9%: 1½ awr **gwrandio/ysgrifenedig** - dadansoddi gwaith gosod

MU6 [B] Gwerthuso 2/3 20% Asesiad allanol

Un papur arholiad ysgrifenedig mewn 3 rhan (3 awr)

- Rhan 1: 6%: ¾ awr **papur gwrandio** - dyfyniadau heb eu paratoi o gerddoriaeth 20fed ganrif/ 21ain
- Rhan 2: 9%: 1½ awr **gwrandio/ysgrifenedig** - dadansoddi gwaith gosod
- Rhan 3 : 5%: ¾ awr **papur ysgrifenedig** – disgwylir i'r disgybl arddangos dealltwriaeth o arddull a gwaith cyfansoddwr un o'r gweithiau gosod y penderfynwyd gan y ganolfan.

PWYSIG IAWN!

Mae cwrs newydd CBAC UG ac A2 yn cychwyn ym Medi 2016.
Nid yw'r ysgolion wedi derbyn y manylion eto, ond fe fydd y cynnwys yn dilyn strwythur yr hen fanyleb.

TECHNOLEG CERDD BTEC LEFEL 3

BTEC Lefel 3 Tystysgrif a Diploma Atodol mewn Technoleg Cerddoriaeth (Cynhyrchu)

Mae'r BTEC Lefel 3 mewn Technoleg Cerddoriaeth yn gwrs dwy flynedd bydd yn rhoi i'r myfyrwyr sgiliau ymarferol creiddiol ar gyfer gyrfa neu astudiaethau pellach yn y maes cyffrous hwn. Yn ystod y flwyddyn gyntaf astudir 3 modiwl sy'n arwain at y cymhwyster Tystysgrif Lefel 3 (cyfatebol i UG). Yn ystod yr ail flwyddyn byddwn yn astudio 3 modiwl pellach sy'n arwain at y cymhwyster Diploma Atodol Lefel 3 (sy'n cyfateb i lefel A).

Mae ystod eang o offer cerddorol proffesiynol ar gael at ddefnydd fyfyrwyr sy'n astudio'r pwnc, gan gynnwys offer recordio digidol, prosesyddion sain, microffonau, syntheseiddwyr, gitarau, a drymiau electronig a pheiriannau drymiau. Yn ogystal, byddwch yn defnyddio cyfrifiaduron cerddorol arbenigol a chael profiad o feddalwedd megis *Reason*, *Cubase* a *Sibelius*.

Nid yw'r gallu i chwarae offeryn cerddorol yn hanfodol i'r cwrs, er y bydd sgiliau allweddell piano sylfaenol o fantais. Mwy pwysig yw clust cerddorol, y gallu i ddefnyddio cyfrifiadur yn hyderus, a'r parodrwydd i arbrofi gyda sgiliau a thechnegau cerddorol newydd er mwyn creu a thrin cerddoriaeth o bob math.

Rhaglen Astudio

Blwyddyn 1: Tystysgrif Lefel 3 mewn Technoleg Cerddoriaeth (Cynhyrchu)

Uned 25: Technegau Cynhyrchu Cerddoriaeth (Uned Graidd): deall offer recordio sain; paratoi ar gyfer sesiwn recordio; technegau recordio a chymysgu aml-drac.

Uned 1: Acwsteg i Gerddorion : ffiseg sain; egwyddorion offerynnau cerddorol; mecanwaith clyw dynol; nodweddion sain gofodau.

Uned 32: Systemau a Thechnegau Dilyniannu (*Sequencing*): gosod i fyny cyfrifiadur a chaledwedd MIDI; sgiliau dilyniannu MIDI ac awdio.

Blwyddyn 2: Diploma Atodol Lefel 3 mewn Technoleg Cerddoriaeth (Cynhyrchu)

Uned 26: Technoleg Cerddoriaeth mewn Perfformio: defnyddio technoleg cerddoriaeth mewn perfformio; deall cyd-destun hanesyddol cerddoriaeth electronig

Uned 29: Technegau Sain Byw: deall gofynion offer sain man perfformio; gosod systemau sain i fyny

Uned 35: Cread a Thriniaeth Sain: deall theori sylfaenol syntheseiddio; defnyddio syntheseisydd a samplwydd; gwireddu syniadau cerddorol sy'n cyfuno technegau syntheseiddio a samplu.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mr E G Davies (egd@plasmawr.cardiff.sch.uk).

BTEC (Lefel 3) YN NHECHNOLEG CERDDORIAETH (ACWSTEG)

Cyflwyniad

Mae Technoleg Cerddoriaeth erbyn hyn yn faes cyflogaeth sydd wedi ei hen sefydlu, ac mae'r cymhwyster BTEC Cenedlaethol hwn yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar y diwydiant cerddoriaeth. Byddai'r cwrs hwn - sy'n seiliedig ar waith cwrs – yn ddefnyddiol yn arbennig i'r rheini sy'n dymuno ehangu eu profiadau cerddorol neu i astudio agweddau ar dechnoleg cerddoriaeth a pheirianeg sain. Mae hwn yn gwrs BTEC lefel 3, sy'n cyfateb i lefel A llawn.

Nôd ac Amcanion

Nôd y cwrs yw darparu dros ddwy flynedd y wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol i'r rheini sy'n dymuno ennill cymhwyster lefel 3 Technoleg Cerddoriaeth (Acwsteg) ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau ac arferion peirianeg sain (gan gynnwys MIDI).

Strwythur y Cwrs

Mae'r cwrs yn cynnwys 6 uned: dwy uned graidd, a phedair uned arbenigol:

Unedau Craidd

- **Proses Cynhyrchiad Stiwdio:** paratoi ar gyfer sesiwn recordio; gosod, rheoli a threfnu'r stiwdio.
- **Prosiect Cynhyrchiad Stiwdio:** wedi'i gysylltu â'r Broses Cynhyrchiad Stiwdio. Bydd yn cynnwys cynhyrchu recordiad aml-drac a defnyddio sgiliau **megis cymysgu, golygu a chynhyrchu deunydd gorffenedig.**

Unedau Arbenigol

- **Cyflwyniad i Acwsteg:** edrych ar sain a chynnig sylfaen wyddonol elfennol ar gyfer deall deunydd crai cerddoriaeth, gan gynnwys sut y mae sain yn ymddwyn mewn mannau perfformio a stiwdio, a'r peirianwaith sylfaenol o drosglwyddo sain i signalau trydanol.
- **Sgiliau Gwrandd:** bydd yr uned hon yn helpu myfyrwyr i wrando ar gerddoriaeth yn feirniadol ac i ddisgrifio'r hyn a glywir, yn cyfuno canfyddiad clywedol a theori cerddoriaeth.
- **Archwiliad i Bwnc Arbenigol:** yn cynnig y cyfle i gynnal archwiliad manwl i un agwedd o'i hoff ffurf gelfyddydol.
- **Technegau Recordio Sain:** yn darparu dealltwriaeth drylwyr o'r cysyniadau a'r arferion crai sy'n ymwneud â thechnegau recordio analog a digidol.

Asesiad

Mae pob aseiniad ar gyfer BTEC Cenedlaethol yn dilyn meini prawf arbennig ac wedi ei seilio ar gyflawni allbynnau penodol. Caiff yr unedau craidd eu hasesu'n allanol mewn ffurf Prif Brosiect Terfynol i'w cwblhau yn ystod ail flwyddyn y cwrs. Caiff yr unedau arbenigol eu hasesu'n fewnol.

Cyfleoedd Ychwanegol

Bydd myfyrwyr Technoleg Cerddoriaeth hefyd yn derbyn y cyfle i ennill profiad ehangach drwy ddarparu cefnogaeth peirianeg sain ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau'r ysgol.

CISCO - BTEC Lefel 3 mewn TGCh

Academi CISCO Ysgol Glantaf

Yn 2006 cafodd Ysgol Glantaf ei achredu gyda statws Academi CISCO. O ganlyniad Glantaf ydy'r unig ysgol yng Nghymru sy'n gallu paratoi myfyrwyr yn ddwyieithog ar gyfer gyrfa yn y diwydiant cymorth technegol technoleg gwybodaeth.

Mae myfyrwyr yn ennill gwybodaeth a phrofiad ymarferol TG drwy rhaglen Academi Rhwydweithio CISCO sy'n helpu iddynt lenwi'r amcangyfrif o wyth miliwn o swyddi ledled y byd.

Diploma Gyfrannol BTEC Edexcel Lefel 3 mewn TGCh

Mae'r cwrs Lefel 3 wedi ei gynllunio i ddarparu cymhwyster hynod arbenigol sy'n gysylltiedig â gwaith, gyda'r posibilrwydd o fynediad i addysg uwch, gradd a rhaglenni datblygiad proffesiynol.

Mae'r Diploma Gyfrannol BTEC, 60-credyd, Lefel 3 yn ymestyn y ffocws arbenigol sy'n gysylltiedig â gwaith gan gynnwys y wybodaeth allweddol a medrau ymarferol sydd eu hangen yn y diwydiant cymorth technegol TG.

Mae'r 360 awr o ddysgu dan arweiniad (GLH) (Fel arfer, chwe uned) yn arwain at gymhwyster sy'n gyfwerth ag un Lefel A.

Strwythur y Cwrs

Diploma Gyfrannol BTEC Edexcel Lefel 3 mewn TGCh				
Uned	Enw'r uned	Credid	Lefel	Iaith / asesiad
1	Cyfathrebu a Sgiliau Chyflogadwyedd ar gyfer TG (Blwyddyn 12)	10	3	Cymraeg / Gwaith cwrs
2	Rhwydweithiau Cyfrifiadurol (Blwyddyn 12)	10	3	Cymraeg / Gwaith cwrs
9	Systemau Cyfrifiadurol (Blwyddyn 12)	10	3	Cymraeg / Gwaith cwrs
10	Rhwydweithiau Cyfrifiadurol (Blwyddyn 13)	10	3	Cymraeg / Gwaith cwrs
101	CISCO CCNA 1 ar gyfer Cartref a Busnesau Bach (Discovery 1)1 (Blwyddyn 13)	10	3	Dwyieithog / Ar-lein
102	CISCO CCNA 2 Gweithio CCNA mewn Busnesau Bach i Ganolig neu ISP (Discovery 2) (Blwyddyn 13)	10	3	Dwyieithog / Ar-lein

Ar ddiwedd y cwrs Bydd y myfyrwyr wedi ennill 1 lefel A cyfwerth ac hefyd ½ o'r rhaglen CCNA CISCO. Gall myfyrwyr sy'n cwblhau'r cwrs yn gynnwys cael y cyfle i ennill y cymhwyster CCNA llawn.

CYFRIFIADUREG

Amlinelliad o'r cwrs UG ac U2:

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 5 uned, 2 uned UG a 3 uned U2.

UG:-(2 uned) – Blwyddyn 12

Uned 1 Hanfodion Cyfrifiadureg

Saernïaeth gyfrifiadurol, cyfathrebu, cynrychioli data, strwythurau data, rhaglenni, algorithmau, rhesymeg, methodoleg rhaglennu ac effaith cyfrifiadureg ar gymdeithas


Uned 2 Rhaglennu Ymarferol i Ddatrys Problemau

Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth yn ymarferol a bydd gofyn defnyddio Visual Basic.NET, Python neu Java fel iaith rhaglennu.

U2:-(3 uned) – Blwyddyn 13

Uned 3 Rhaglennu a Datblygu Systemau

Rhaglenni, strwythurau data, algorithmau, rhesymeg, methodoleg rhaglennu ac effaith cyfrifiadureg ar gymdeithas.



Uned 4 Saernïaeth Gyfrifiadurol, Data, Cyfathrebu

Saernïaeth gyfrifiadurol, cynrychioli data cyfathrebu, trefn a strwythur data, rhaglenni, algorithmau a meddalwedd rhaglenni.

Uned 5 Rhaglennu Datrysiaid i Broblem

Bydd ymgeiswyr yn trafod, ymchwilio, dylunio, creu prototeip, mireinio a gosod, profi a gwerthuso datrysiaid cyfrifiadurol i **problem o ddewis yr ymgeisydd**. Mae'n rhaid ei datrys gan ddefnyddio'r cod gwreiddiol (rhaglennu).

Strwythur Asesu:

UG: (2 uned)

Modiwl	Marc	Dull	Amser	Arholiad
Unit 1	65%	Papur Ysgrifenedig	2 awr	Haf Bl. 12 / 13
Unit 2	35%	Arholiad ar-sgrin	2 awr	Haf Bl. 12 / 13

LEFEL Uwch (5 uned):-

UG: (2 uned – CG1 =32.5%, CG2 =17.5%) + U2: (3 uned)

Modiwl	Marc	Dull	Amser	Arholiad
Unit 3	20%	Papur Ysgrifenedig	2 awr	Haf Bl.13
Unit 4	20%	Papur Ysgrifenedig	2 awr	Haf Bl. 13
Unit 5	20%	Tasg Ymarferol	Tua 72 awr	Haf Bl. 13

CYMDEITHASEG

Amlinelliad o'r cwrs UG a Safon uwch:

UG Uned 1 Caffael Diwylliant

15% o'r cymhwyster: Arholiad ysgrifenedig 1 awr 15 munud

Adran A – cysyniadau allweddol a phrosesau trosglwyddo diwylliant, cymdeithasoli a chaffael diwylliant

Adran B – Diwylliannau ieuenctid

UG Uned 2 Deall Cymdeithas a Dulliau Ymchwilio Cymdeithasegol

25% o'r cymhwyster: Arholiad ysgrifenedig 2 awr

Adran A – Dulliau Ymchwilio Cymdeithasegol

Adran B – Deall cymdeithas: Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r ffyrdd mae'r system addysg yn effeithio ar unigolion

U2 Uned 3: Grym a Rheolaeth

25% o'r cymhwyster; Arholiad ysgrifenedig 2 awr

Trosedd a gwyredd

U2 Uned 4: Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymchwilio

35% o'r cymhwyster: Arholiad ysgrifenedig 2 awr 15 munud

Adran A - Dulliau cymhwysol o Ymchwilio Cymdeithasegol – dylunio, cyfiawnhau a gwerthuso darn o ymchwil Cymdeithasegol

Adran B -Anghydraddoldeb Cymdeithasol – gwahaniaethu cymdeithasol a haenau cymdeithasol

CYMRAEG

Amlinelliaid o'r cwrs UG ac A2:

UG:-

Astudir y ffilm 'Hedd Wyn' a'r ddrama 'Siwan' gan ddadansoddi'r golygfeydd, cymeriadau, themâu a thechnegau yn fanwl. Ceir llawer o ymarferion gramadeg, ac astudir amryw o gerddi o'r ugeinfed ganrif. Bydd angen cyflawni dau ddarn o waith cwrs – creadigol a mynegi barn.

A2:-

Astudir y nofel 'Dan Gadarn Goncrit', chwedl 'Branwen ferch Llŷr' (Rhyddiaith o'r Oesoedd Canol), pedair hengerdd (o'r 6ed i'r 10fed ganrif) a thri chywydd (14eg ganrif). Ceir cyfle hefyd i werthfawrogi rhyddiaith a barddoniaeth, a thrafodir gwahanol ddarnau o lenyddiaeth ar gyfer yr asesiad synoptig. Hyfforddir y disgyblion i ysgrifennu darnau ffeithiol at ddiben cynulleidfa benodol.

Strwythur Asesu:

UG:-

CY1	Arholiad Llafar (Ffilm a Drama) Ebrill	15%
CY2	Gwaith Cwrs erbyn Ebrill	10%
CY3	Arholiad Haf (Gramadeg a Barddoniaeth)	15%

A2:-

CY4	Arholiad Llafar (Nofel a Synoptig) Ebrill	20%
CY5	Arholiad Haf (Hengerdd, Cywyddwyr a Rhyddiaith yr Oesoedd Canol)	20%
CY6	Arholiad Haf (Gwerthfawrogi llenyddiaeth, defnyddio iaith)	20%

CHWARAEON BTEC L2

Rhaid cymryd ar y cyd gyda Chwaraeon Colofn B

Pam astudio'r cwrs BTEC Diploma Chwaraeon Awyr Agored lefel 2?

Bwriad y cwrs Chwaraeon Awyr Agored lefel 2 yw cynnig cyfleodd heriol ac ymarferol i ddisgyblion

yr ysgol i ymestyn eu gallu perfformio / dadansoddi a'u hymwybyddiaeth o swyddi yn y maes. Drwy ymuno â'r adran mi fydd y disgyblion yn derbyn y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, rhinweddau a'u sgiliau allweddol a fydd yn tanlinellu eu datblygiad academaidd a phersonol er mwyn eu galluogi i ddewis llwybr gyrfa glir, boed yn addysg bellach neu swydd yn y dyfodol.


<i>BTEC Lefel 2 Chwaraeon Awyr Agored</i>
Uned 5 - Iechyd, Diogelwch ac Anafiadau ym myd Chwaraeon
Uned 16: Arwain Gweithgareddau Awyr Agored ac Anturus
Uned 17: Profiad o Alldeithiau
Nid oes arholiad i'r pwnc yma ond mae angen cynhyrchu portffolio o waith cwrs.



Beth fyddaf yn astudio?

Mae'r cwrs BTEC Diploma lefel 2 sy'n cyfateb i 4 TGAU A* i C.

Mae'n orfodol i bob unigolyn astudio 3 uned graidd i gwblhau'r wobr.



Trosodd....

Uned 5 - Iechyd, Diogelwch ac Anafiadau ym myd Chwaraeon

1. Gwybod am y gwahanol fathau o anafiadau ac afiechydon sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn chwaraeon
2. Medru ymdrin ag anafiadau ac afiechydon sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn chwaraeon
3. Deall y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn chwaraeon

Uned 16: Arwain Gweithgareddau Awyr Agored ac Anturus

1. Deall y sgiliau, y priodweddau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag arwain gweithgareddau awyr agored ac anturus yn llwyddiannus
2. Medru cynllunio ac arwain, dan oruchwyliaeth, gweithgareddau awyr agored ac anturus
3. Medru adolygu eu cynllunio a'u harweinyddiaeth ar weithgareddau awyr agored ac anturus.

Uned 17: Profiad o Alldeithiau

- 1 Deall ystyriaethau diogelwch ac amgylcheddol alldaith sawl diwrnod
- 2 Medru defnyddio'r sgiliau a'r technegau sy'n ofynnol ar gyfer alldaith sawl diwrnod
- 3 Medru defnyddio'r cyfarpar sy'n ofynnol ar gyfer alldaith sawl diwrnod
- 4 Medru cynllunio, cynnal ac adolygu alldaith sawl diwrnod.

Cyfleoedd:

Dysgu drwy wneud
Sgiliau Allweddol
Gwobr Dug Caeredin (Efydd ac Arian)
Teithiau Preswyl
Ceufad a Chanwïo yng Nghanolfan Dwr Gwyn Caerdydd
Nifer o Chwaraeon Gwahanol

Beth mae'r cwrs yn cynnig i mi?

Mae'r cwrs yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth mewn modd ymarferol. Mi fydd hyn yn sylfaen da i ddatblygu yn y dyfodol i'r gweithle neu i addysg bellach megis y chweched dosbarth. Mae'r cwrs yn arwain at gyrsiau megis BTEC lefel 3 Gwasanaethau Cyhoeddus. Cryfder yr adran yw ein perthynas a chysylltiadau y tu allan i'r ysgol. Drwy ymuno â ni yn yr adran alwedigaethol mi fyddwn yn agor eich gorwelion i swyddi posib yn y maes.

DAEARYDDIAETH

“ More than ever we need the geographer’s foresight to help us learn about our planet ... how we use and abuse it. Geography is the subject which holds the key to our future.”

Michael Palin

Unedau Dysgu UG

G1 Newid Mewn Amgylcheddau Ffisegol

(Papur 1 awr 30 munud)

- Ymchwilio i Newid Hinsawdd
- Ymchwilio i Newid Tectonig
- Ymchwilio i Newid Hydrolegol
-

G2 Newid mewn Amgylcheddau Dynol

(Papur 1 awr 30 munud)

- Ymchwilio i newidiadau poblogaeth
- Ymchwilio i Newidiadau yn Aneddiadau Gwledydd MEDd

Yn ogystal i’r uchod bydd disgyblion yn ymgymryd â gwaith ymchwil / gwaith maes yn seiliedig ar y ddwy uned.

Unedau Dysgu Safon Uwch

G3 Themâu cyfoes

(Papur 1 awr 30 munud)

- Peryglon Hinsoddol
- Asia Ddatblygol

G3 Themâu Cyfoes ac Ymchwil Daearyddol

(Papur 1 awr 15 munud)

- Gwaith ymchwil unigol yn seiliedig ar ddewis o themâu cyfoes

G4 Cynladwyedd

(Papur 1 awr 45 munud)

- Egni
- Bwyd
- Dinasoedd
- Dwr

Bydd y papur yma yn cynnwys uned datrys problemau

Dylech ennill gradd **C TGAU** neu’n uwch i fod yn gymwys ar gyfer y pwnc. **Rydym hefyd yn croesawu pobl sydd heb astudio’r pwnc yn TGAU i ymuno â’r cwrs Uwch Gyfrannol.**

***Mae’r fanyleb newydd yn cael ei thrafod ar hyn o bryd
a bydd y wybodaeth ddiweddaraf
yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosib.***

DRAMA AC ASTUDIAETHAU THEATR

Amlinell o gyrsiau UG ac Uwch.

Pedair uned ar wahân a asesir dros ddwy flynedd, dwy uned ar gyfer UG a dwy ar gyfer yr arholiad Uwch.

UG:-

DA1

Gweithdy Perfformiad – asesir yn fewnol a'i safoni yn allanol = 40%

- perfformiad a ddylai gynnwys dau ddarn o waith, un allan o destun gosod ac un wedi ei ddyfeisio
- rhaid cynnwys arddull o leiaf un arloeswr
- arholiad rhwng Tachwedd a Mawrth

DA2

Testun mewn perfformiad – papur ysgrifenedig, yn cael ei farcio yn allanol = 60%

- dau destun o ddau grŵp, un cyn 1900 ac un ar ôl 1900
- un cwestiwn yr un mewn perthynas â pherfformiad
- adolygiad o berfformiad theatrig

Uwch

DA3

Perfformiad wedi ei selio ar thema osod – yn cael ei farcio'n allanol = 60%

Perfformiad wedi ei selio ar thema

golygfa allan o destun cydnabyddedig

darn wedi ei ddyfeisio

adroddiad ysgrifenedig ar y perfformiad. O dan amgylchiadau a reolwyd ac o fewn 24awr. Awr a hanner o hyd.

DA4

Testun o fewn cyd-destun – papur ysgrifenedig yn cael ei farcio'n allanol = 40%

Uned synoptig wedi ei selio ar ddau destun o ddramâu detholedig.

Adran A/B

- Cwestiynau wedi eu selio ar ddrama gyfan yn seiliedig ar actor yn paratoi neu gyfarwyddwr yn llwyfannu

Adran C

- testun newydd o unrhyw gyfnod
- creu cynllun llawr
- symudiad y cymeriadau
- goleuo a sain
- trafodaeth a chyfiawnhad o'r syniadaeth

TECHNOLEG - DYLUNIO CYNNYRCH

Amlinelliad o'r cwrs UG ac A2:

Bydd y disgyblion yn dylunio a gwneud cynhyrchion gydag amrywiaeth o ddefnyddiau a thechnegau. Datblygir y cywaith dan arweiniad yr athro am tua 40 awr UG, a tua 60 awr am y safon uwch. Bydd angen gweithio yn annibynnol am gyfnod ychwanegol i gwblhau'r gwaith i'r safon a ddisgwyllir gan yr arholwyr. Bydd angen gwneud defnydd o systemau CAD/CAM a TG priodol yn y cywaith.

Strwythur Asesu:

UG:-

DT1	Arholiad ysgrifenedig –	40% UG	20% A2	2 Awr
DT2	Cywaith/Gwaith Cwrs	60% UG	30% A2	40 Awr

Bydd y flwyddyn gyntaf yn arwain at Uwch Gyfrannol ac yn cyfrannu 50% o gyfanswm y marciau ar gyfer safon uwch

A2:-

DT3	Arholiad ysgrifenedig –	20% A2	2 ½ Awr
DT4	Cywaith/Gwaith Cwrs	30% A2	60 Awr

Nodau

Bwriedir i'r fanyleb UG/Uwch hon:

(a) fod o ddiddordeb i amrywiaeth eang o ymgeiswyr gan gynnwys y rheiny sy'n bwriadu dilyn yn uniongyrchol gwrs addysg uwch neu yrfa mewn Dylunio a Thechnoleg neu faes cysylltiedig. Gall y rheiny sydd â diddordebau a dyheadau eraill hefyd elwa ar y sgiliau trosglwyddadwy niferus sydd ynghlwm wrth astudiaeth o Ddylunio a Thechnoleg.

(b) adeiladu ar y wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddysgwyd tra'n dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol a TGAU ac, ar yr un pryd, darparu ar gyfer anghenion ymgeiswyr nad ydynt wedi astudio Dylunio a Thechnoleg TGAU;

(c) hybu dilyniant trwy'r cyrsiau UG ac Uwch a darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Dylunio a Thechnoleg neu faes astudio cysylltiedig mewn sefydliad addysg bellach neu uwch a / neu baratoi ar gyfer cyflogaeth a byd gwaith;

(ch) darparu cyfleoedd i ymgeiswyr feithrin dealltwriaeth eang o'r sgiliau, dealltwriaeth a gwybodaeth sydd ynghlwm wrth Ddylunio a Thechnoleg ac arbenigo mewn un maes penodol;

(d) annog ymgeiswyr i feithrin barn feirniadol, i weld y berthynas rhwng y dylunydd, y gwneuthurwr a'r defnyddiwr ac i ddeall Dylunio a Thechnoleg o fewn y byd yr ydym ni'n byw ynddo;

(dd) darparu cyfleoedd i ymgeiswyr feithrin eu sgiliau allweddol, yn enwedig ym meysydd datrys problemau, defnyddio TG a chyfathrebu. Byddant hefyd yn cael cyfleoedd i wella eu sgiliau cymhwyso rhif, eu gallu i weithio ag eraill, a'u dysgu a'u perfformiad eu hunain;

(e) meithrin dealltwriaeth o arferion dylunio a thechnoleg cyfoes;

(f) defnyddio technolegau digidol a sgiliau trin gwybodaeth i wella eu gallu dylunio a thechnolegol;

(ff) deall y gwerthoedd sydd ynghlwm wrth weithgareddau dylunio a thechnolegol a meithrin sgiliau gwerthuso beirniadol mewn cyd-destunau technegol, esthetig, moesegol, economaidd, amgylcheddol, cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac entrepreneuriaidd.

Cynnwys Y Fanyleb.

Mae Dylunio a Thechnoleg yn ymwneud â chymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Argymhellir felly i gynnwys y fanyleb gael ei gyflwyno mewn ffordd ymarferol i alluogi ymgeiswyr i ddeall pwrpas y wybodaeth a'i defnyddio mewn sefyllfaoedd ymarferol.

Cyflwynir cynnwys y fanyleb o dan y ddau amcan asesu, sef dylunio (AA1) a gwneud (AA2), fel a ganlyn:

4.1 Dylunio

4.1.1 Dylunio ac arloesi (UG)

4.1.2 Dadansoddi cynnyrch (UG)

4.1.3 Cyfrifoldeb dynol (U2)

4.1.4 Rhyngweithiad cyhoeddus (U2)

4.2 Gwneud

4.2.1 Defnyddiau a chyd-rannau (UG)

4.2.2 Arfer diwydiannol a masnachol (UG)

4.2.3 Prosesau (U2)

4.2.4 Systemau cynhyrchu a rheolaeth (U2)

ECONOMEG (Medi 2016 ymlaen)

Uwch Gyfrannol (40% o radd Safon Uwch)

Astudir 2 uned

Uwch Gyfrannol - Uned 1

Cyflwyniad i Egwyddorion Economaidd

Uwch Gyfrannol - Uned 2

Economeg ar Waith

Asesiadau Uwch Gyfrannol

EC1 - Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud (15% o'r cymhwyster 55 marc)

Cwestiynau dewis lluosog a chwestiynau strwythuredig sy'n cwmpasu'r holl gynnwys UG.

EC2 - Arholiad ysgrifenedig: 2 awr (25% o'r cymhwyster 80 marc)

Cwestiynau gorfodol ymateb i ddata sy'n cwmpasu'r holl gynnwys UG.

Safon Uwch (yr uchod yn ogystal â 2 uned bellach)

Uwch 2 - Uned 3

Archwilio Ymddygiad Economaidd

Uwch 2 - Uned 4

Gwerthuso Modelau a Pholisïau Economaidd

Asesiadau Uwch 2

EC3 - Arholiad ysgrifenedig: 2 awr (30% o'r cymhwyster 80 marc)

Cwestiynau strwythuredig yn seiliedig ar gynnwys U2.

Un cwestiwn gorfodol ymateb i ddata.

Fe fydd papur arholiad EC3 yn cwmpasu holl gynnwys y cwrs Safon Uwch

EC4 - Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud (30% o'r cymhwyster 90 marc)

Un traethawd ym mhob adran:

- Adran 1 - Micro-economeg
- Adran 2 - Macro-economeg
- Adran 3 - Masnach a Datblygu.

Fe fydd papur arholiad EC4 yn cwmpasu holl gynnwys y cwrs Safon Uwch.

FFISEG

Amlinelliad o'r cwrs UG ac A2

UG:-

Uned 1 (Mudiant, Egni a Mater):

Ffiseg sylfaenol, Cinemateg, Dynameg, Cysyniadau egni, Solidau dan ddiriant, Defnyddio pelydriad i ymchwilio i sêr, Gronynnau ac adeiledd niwclear.

Uned 2 (Trydan a Golau):

Dargludiad trydan, Gwrthiant, Cylchedau c.u. Natur Tonnau, Plygiant Golau, Ffotonau, Laserau.

Gwaith Ymarferol – Bydd gwaith a thechnegau ymarferol yn cael eu dysgu i gyd-fynd â'r theori ac yn cael eu arholi yn yr un papurau arholiad ag Unedau 1 a 2.

A2:-

Uned 3 (Osgiliadau a Niwclysau):

Mudiant Cylchol, Dirgryniadau, Damcaniaeth ginetig, Ffiseg thermol, Dadfeiliad niwclear, Egni niwclear.

Uned 4 (Meysydd ac Opsiynau):

Cynhwysiant, Meysydd grym electrostatig a meysydd disgrychiant, Orbitau a'r bydysawd ehangach, Meysydd magnetig, Anwythiad electromagnetig, Ffiseg feddygol.

Uned 5 – Paratoi tuag at arholiad ymarferol.

Strwythur Asesu:

UG:-

Uned 1 (PH1) – Arholiad 1½ awr (mis Mehefin), 20% o'r cymhwyster Lefel A

Uned 2 (PH2) – Arholiad 1½ awr (mis Mehefin), 20% o'r cymhwyster Lefel A

A2:

Uned 3 (PH3) – Arholiad 2 awr 15 munud (mis Mehefin), 25% o'r cymhwyster

Uned 4 (PH4) – Arholiad 2 awr (mis Mehefin), 25% o'r cymhwyster

Uned 5 (PH5) – Arholiad ymarferol (mis Mehefin), 10% o'r cymhwyster

FFRANGEG

Amlinelliad o'r cwrs UG ac A2:

Bydd y cwrs yn:

- datblygu dealltwriaeth y disgybl o'r iaith Ffrangeg
- ei alluogi i gyfathrebu'n hyderus ac yn effeithiol yn Ffrangeg
- galluogi'r disgybl i ddatblygu ei ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gymdeithas gyfoes a diwylliant gwledydd Ffrangeg eu hiaith wrth astudio themâu penodol (gweler isod).

UG:-

Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Ffrangeg ei hiaith (gan gynnwys y teulu, perthynas, tueddiadau, addysg a chyflogaeth)

Deall y byd Ffrangeg (e.e diwylliant a threftadaeth rhanbarthol, llenyddiaeth, celfyddyd, ffilm a cherddoriaeth)

A2:-

Amrywiaeth a gwahaniaeth (e.e. mudo, integreiddio, hunaniaeth, ymyleiddio, gwahaniaethu a dathlu gwahaniaeth)

Ffrainc 1940-1950: Y Goresgyniad a'r blynyddoedd wedi'r rhyfel

Strwythur Asesu:

2 flynedd – 4 uned

Y flwyddyn gyntaf:

UG:-

- TASG 1: Llafar (15 munud) 12% o'r Safon Uwch
- TASG 2: Gwrando ac ymateb a darllen a deall (1awr30) 15% o'r Safon Uwch
- TASG 3: Ymateb beirniadol wrth ysgrifennu (1awr30) 13% o'r Safon Uwch
(astudiaeth o ffilm)

Yr ail flwyddyn:

A2:-

- TASG 4: Llafar (15-20 munud) 18% o'r Safon Uwch
(project ymchwil annibynnol)
- TASG 5: Gwrando darllen a chyfieithu (1 awr 45) 23% o'r Safon Uwch
- TASG 6: Ymateb beirniadol a dadansoddol wrth ysgrifennu (1awr30) 19% o'r Safon Uwch
(astudiaeth o lenyddiaeth)

GWASANAETHAU CYHOEDDUS BTEC L3

Pam astudio cwrs BTEC lefel 3 yn y Gwasanaethau Cyhoeddus?

Y Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r cyflogwr mwyaf yn y DU. Mi fydd y cwrs yn anelu i ddysgu'r holl sgiliau sydd angen ar unigolyn er mwyn dilyn gyrfa yn y Gwasanaethau Cyhoeddus neu am Addysg Bellach. Drwy ymuno gyda ni yn yr adran Alwedigaethol mi fyddwn yn darparu amgylchfyd dysgu heriol sydd yn annog y defnydd o sgiliau a dysgu drwy brofiadau a fydd yn sail i ddatblygiad academiaidd a personol.

BTEC Tystysgrif

Uned 1	Llywodraeth, Polisiau a'r Gwasanaethau Cyhoeddus
Uned 2	Arweinyddiaeth a Gwaith Tim yn y Gwasanaethau Cyhoeddus
Uned 11	Sgiliau ar gyfer Gweithgareddau Dwr
<i>BTEC Diploma Atodol</i> (yr unedau uchod yn ychwanegol i'r unedau canlynol)	
Uned 3	Dinasyddiaeth, Amrywiaeth a'r Gwasanaethau Cyhoeddus
Uned 9	Alldeithiau Awyr Agored



Beth fyddaf yn astudio?

Mae'r cwrs BTEC Tystysgrif / Diploma Atodol yn gwrs lefel 3 sy'n cyfateb i nail ai un UG neu un lefel A. Mae'n orfodol i bob unigolyn astudio pob uned.



Beth yw cynnwys y cwrs BTEC lefel 3 Gwasanaethau Cyhoeddus?

Unit 1 - Y Llywodraeth, Polisiâu a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

- 1 Adnabod y gwahanol lefelau o lywodraeth yn y DU
- 2 Deall y broses etholaethol am wahanol lefelau o lywodraeth yn y DU
- 3 Adnabod effaith polisiâu llywodraeth y Du ar y gwasanaethau cyhoeddus
- 4 Dangos sut mae polisiâu llywodraethol yn i ddatblygu

Unit 2 - Arweinyddiaeth a Gwaith Tîm yn y Gwasanaethau Cyhoeddus

- 1 Adnabod gwahanol ddulliau o arwain
- 2 Gallu i gyfathrebu yn effeithiol er mwyn briffio a dadbriffio tîm
- 3 Gallu dangos y sgiliau i arwain tîm
- 4 Cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm
- 5 Deall y camau wrth i dîm datblygu

Unit 3 - Dinasyddiaeth, Amrywiaeth a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

- 1 Deall ystyr a buddion o ddinasyddiaeth ac amrywiaeth
- 2 Adnabod hawliau cyfreithiol a dynol
- 3 Deall rôl y gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu hawliau cyfartal
- 4 Ymchwilio i mewn i faterion cyfoes, y wasg a chefnogaeth

Unit 9 - Alldeithiau Awyr Agored

- 1 Adnabod mathau o alldeithiau
- 2 gallu i gynllunio alldeithiau
- 3 Cymryd rhan mewn alldeithiau
- 4 Gwerthuso alldeithiau

Unit 11 - Sgiliau ar gyfer Gweithgareddau Awyr Agored ar y Dŵr

- 1 Adnabod gwahanol weithgareddau ar y dŵr
- 2 Gallu i reoli perygl wrth wneud gweithgareddau ar y twr
- 3 Cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y dŵr
- 4 Gwerthuso datblygiad sgiliau ar gyfer gweithgareddau ar y dŵr

Beth mae'r cwrs yn cynnig i mi?

Mi fydd y cwrs yn estyn cyfle i chi ddatblygu i gyrsiau addysg bellach yn y prifysgol.
“Rwyf wedi mwynhau cymryd rhan yn y cwrs yma’n fawr iawn - Dyma oedd fy hoff bwnc ac rwyf bellach yn ei astudio fel cwrs lefel 3. Rwyf wedi derbyn y cyfle i ddysgu drwy wneud ac rwyf wedi cael llawer o brofiadau a sgiliau gwerthfawr. Roedd y cyrsiau awyr agored a'r cyrsiau Preswyl yn anhygoel”. Jamie Bevan (2010).

GWLEIDYDDIAETH A LLYWODRAETH

Cyfle i astudio pwnc newydd fydd yn datblygu eich dealltwriaeth o'r system wleidyddol yn y Deyrnas Unedig a'r UDA.

Amlinelliad o'r cwrs UG ac A2:

UG:

GP1 – Pobl, Gwleidyddiaeth a Chyfranogaeth

- Systemau Ethol
- Ymddygiad Pleidleisio
- Carfannau Pwyso a Mudiadau Protest

GP2 - Llywodraethu Cymru a Phrydain Fodern

- Y Senedd
- Y Gweithgor
- Cyfansoddiad Prydain

A2:

GP3a – Gwleidyddiaeth yr UDA

- Y Broses Etholiadol yn yr UDA
- Pleidiau Gwleidyddol yr UDA
- Y Patrwm Pleidleisio yn yr UDA

GP4a – Llywodraeth yr UDA

- Y Cyfansoddiad
- Y Gyngres
- Y Llys Goruwch

Strwythur Asesu:

UG:

- GP1 = 1 arholiad ysgrifenedig 1½ awr (mis Mai/Mehefin).
- GP2 = 1 arholiad ysgrifenedig 1½ awr (mis Mai/Mehefin).

Y ddau bapur gwerth 50% UG a 25% o'r Lefel A cyfan.

A2:

- GP4a = 1 arholiad ysgrifenedig 1½ awr (mis Mai/Mehefin).
- GP3a = 1 arholiad ysgrifenedig 1½ awr (mis Mai/Mehefin).

Y ddau bapur gwerth 50% o'r A2 a (25% o'r Lefel A cyfan).

Dim gwaith cwrs

GWYDDONIAETH GYMHWYSOL BTEC Lefel 3

Cyflwyniad

Mae'r BTEC lefel 3 yn gwrs sy'n berthnasol iawn i fyd gwaith yn y diwydiant gwyddonol. Gyda mwy o gyflogwyr yn chwilio am bobl sydd â chymwysterau addas i weithio yn y maes Gwyddoniaeth, Peirianeg a Thechnoleg mae'n gyfle i astudio'r pwnc yn mewn modd galwedigaethol sy'n apelio i lawer o fyfyrwyr oherwydd mae'r cwrs yn cael ei asesu trwy aseiniadau cyson yn hytrach nag arholiadau. Mae'r cwrs yma yn paratoi myfyrwyr ar gyfer nifer o gyrsiau Prifysgol yn y maes gwyddonol neu i ddilyn gyrfaedd yn y byd gwaith megis Gwyddoniaeth Fforensig, Ymchwilydd Cyffuriau Fferyllol, Technegydd Labordy, Nyrsio a Thechnegydd Deintyddol. Mae'r myfyrwyr yn dysgu trwy gwblhau aseiniadau sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd, gweithgareddau a gofynion y byd gwaith real.

Mae'r BTEC Lefel 3 yma yn cyfateb i 1 Lefel A.

Strwythur y cwrs

Mae'r cwrs yn cynnwys 3 uned graidd ym mlwyddyn 12 a 3 uned arbenigol o'n dewis ni ym mlwyddyn 13

Unedau Craidd BI 12

Uned 1 – Hanfodion Gwyddoniaeth

Nod yr uned hon yw galluogi'r myfyrwyr i ddatblygu'r technegau ymarferol sydd eu hangen i ddilyn gyrfa fel technegydd labordy. Bydd y myfyrwyr yn ymchwilio i'r meintiau sydd eu hangen mewn adweithiau cemegol, adeiledd a swyddogaethau celloedd, gwerth caloriffig tanwyddau gwahanol ac yn datblygu sgiliau o ran cyflew gwybodaeth wyddonol.

Uned 2 – Gweithio yn y Diwydiant Gwyddoniaeth

Nod yr uned hon yw galluogi myfyrwyr i ennill y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr yn y diwydiant gwyddoniaeth i fod yn aelod effeithiol, effeithlon a diogel o dim. Bydd myfyrwyr yn dysgu am arferion cyfathrebu, sut mae cynllunio labordy, sut mae systemau yn cael eu defnyddio i reoli labordy a sut i weithio'n ddiogel.

Uned 4 – Technegau ymarferol gwyddonol

Nod yr uned hon yw galluogi myfyrwyr i ddefnyddio ystod eang o dechnegau ymarferol a ddefnyddir mewn gwyddoniaeth fel dadansoddi sylweddau, gwahanu sylweddau a defnyddio offer/synwryddion. Gall y technegau a astudir gael eu teilwro i feysydd penodol o fewn Cemeg, Ffiseg neu Fioleg.

Trosodd.....

Unedau Bl 13

Uned 11 – Ffisioleg Systemau'r Corff Dynol

Yn yr uned hwn bydd myfyrwyr yn dysgu am systemau'r corff a sut maent yn cydweithio. Bydd y system nerfol, cardiofasgiwlar, resbiradol, arennol, cyhyrol a sgerbydol, endocrinaidd, lymffatig, treulio ac atgenhedlu yn cael eu hastudio. Bydd myfyrwyr yn dangos gwerthfawrogiad o bwysigrwydd pob system i sicrhau ein bod yn gweithredu fel organeb cyflawn.

Uned 20 – Technegau Ffiseg Meddygol

Mae datblygiad technegau meddygol dros y 50 mlynedd diwethaf wedi galluogi mathau gwahanol, cyflym o ddiagnosis o fewn meddygaeth. Yn yr uned hwn bydd myfyrwyr yn dysgu am briodweddau ymbelydredd ïoneiddio a gwerthfawrogi dadfeiliad ymbelydrol a hanner oes a'u cysylltu i rôl y radiograffydd ysbyty. Byddent yn darganfod sut mae uwchsain a phelydrau X yn cael eu cynhyrchu a sut y defnyddir rhain i ganfod cyflyrau meddygol yn ogystal â thriniaethau radiotherapy i ladd celloedd cancr.

Uned 22 – Technegau Cemegol yn y Labordy

Yn yr uned hwn bydd myfyrwyr yn datblygu eu syniadau o uned 4 yn ogystal â dysgu am dechnegau newydd yn y maes sy'n cael eu defnyddio ar raddfa fawr. Byddent yn paratoi sylweddau a diddwytho canran cynnyrch a phurdeb.

Strwythur asesu

Mae pob aseiniad yn cael eu gosod a'u marcio gan yr ysgol, a'u cymedroli'n allanol. Nid oes arholiad allanol felly mae 100% o'r radd derfynol yn dod o asesiadau a gwblheir yn yr ysgol o dan arweiniad yr athrawon. Gall y myfyrwyr ennill cymhwyster sy'n cyfateb i llwyddiant, teilyngdod neu rhagoriaeth yn ddibynnol ar y nifer a'r math o asesiadau y maent yn eu cyflwyno.

Nid yw'n bosib llwyddo gyda'r cwrs hyn onibai fod presenoldeb rheolaidd yn y gwersi.

HANES

Amlinelliad o'r cwrs UG ac A2:

UG:-

Uned 1 – Astudiaeth fanwl o Hanes Cymru a Lloegr 1485-1603 e.e. Newidiadau Crefyddol, gwrthryfeloedd, chwyldro llywodraethol a pholisi tramor e.e. y Bygythiad Catholig.

Uned 2 - Astudiaeth fanwl (Rhan 1): Cyfnod Weimar 1918–1933.
Problemau Weimar ar ôl y Rhyfel Mawr a thwf y Blaid Natsïaidd.

A2:-

Uned 3 – Bydd y myfyrwyr yn astudio un o wyth thema o gyfnod y canol oesoedd cynnar hyd at ddiwedd yr ugeinfed ganrif. (Thema heb ei ddewis eto)

Uned 4 – Astudiaeth fanwl (Rhan 2): Yr Almaen Natsïaidd 1933-45

Uned 5: Dehongliadau hanesyddol: Ymchwil annibynnol: 3-4,000 o eiriau

Strwythur Asesu:

Uned 1 - Arholiad allanol: Mehefin B.12 –: 1awr a 30 munud. Traethodau penagored	60 marc	20%
Uned 2 – Arholiad allanol: Mehefin B.12 –: 1 awr ac 30 munud. Cyfres o gwestiynau ar ffynonellau	60 marc	20%
Uned 3 – Arholiad allanol: Mehefin Bl13: 1 awr a 45 munud.	60 marc	20%
Uned 4 – Arholiad allanol: Mehefin Bl.13: 1 awr a 45 munud.	60 marc	20%
Uned 5 – Dehongliadau Hanesyddol: Dim arholiad	60 marc	20%

Gallai disgybl sydd heb astudio TGAU Hanes astudio'r pwnc o'r newydd ym Mlwyddyn 12.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Amlinelliad o'r cwrs UG ac A2:

Anelir y cwrs hwn at fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Dysgir am ddatblygiad dynol, hybu iechyd a strwythur gwasanaethau gofal ac iechyd Prydain.

Nodau

Dylai'r fanyleb UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol annog ymgeiswyr i :

- Ddatblygu a chynnal diddordeb mewn iechyd, gofal blynyddoedd cynnar ac addysg, gofal cymdeithasol a materion sy'n effeithio ar y sector gofal.
- Ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd, gofal blynyddoedd cynnar ac addysg a materion yn effeithio ar y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Datblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad effeithiol i'r sector gofal gan gynnwys sgiliau ymchwil, gwerthuso a datrys problemau mewn cyd-destun cysylltiedig â gwaith.
- Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau.
- Paratoi ar gyfer astudio a hyfforddiant pellach.

Disgwylir bod y myfyrwyr yn gwneud llawer o waith ymchwil annibynnol a chynhyrchu portffolios gwaith cwrs sy'n seiliedig ar glientiaid a'r gweithle.

Awgrymir y dylai'r gwaith ymchwil hwn olygu bod yn ymwybodol o'r newidiadau gwleidyddol ac economaidd sy'n effeithio'r gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy ddarllen papurau newydd a chylchgronau cyfoes, yn ogystal â defnyddio'r we.

Strwythur Asesu:

UG:-

1 Arholiad – Hybu Gofal o Ansawdd a Chyfathrebu 40%

1 Gwaith cwrs - Ymgyrch Hybu Iechyd 60%

A2:-

1 Arholiad – Darpariaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant 40%

1 Gwaith cwrs – Dewis un o'r canlynol:

- Gofalu am Unigolion Hŷn
- Rôl therapïau cyflenwol
- Dylanwad Bwyd a Ffitrwydd ar Iechyd
- Gweithio yn y byd Iechyd a Gofal Cymdeithasol 60%

Cyflwynir pob portffolio a sefir pob arholiad ym mis Mai.

Gyrfaoedd

Y fath o swyddi sy'n gofyn am y lefel A hwn yw nyrsio oedolion a phlant, gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol, therapi lleferydd, nyrs ddeintyddol, hybu iechyd a gofalu am eraill.

MATHEMATEG

Mae Mathemateg yn bwnc academiaidd ymestynnol sy'n galw am ymrwymiad llwyr dros gyfnod o ddwy flynedd. Nod y cwrs yw i roi dealltwriaeth gadarn o fathemateg a fydd yn sylfaen ar gyfer astudiaethau pellach yn y pwnc a hefyd i gynnal y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau eraill fel Ffiseg, Astudiaethau Busnes, Economeg, Cyfrifiaduro a Seicoleg.

Mae gan y cwrs CBAC strwythur fodolaidd sy'n cynnwys cyfanswm o dri ar ddeg o fodylau:

Mathemateg Pur – C1, C2, C3 a C4

Mathemateg Pur Pellach – FP1, FP2 a FP3

Mecaneg – M1, M2 a M3

Ystadegaeth – S1, S2 ac S3

Amlinelliad o'r cyrsiau UG a lefel A yn Mathemateg:

Mae'r myfyrwyr sy'n dilyn Mathemateg fel pwnc sengl yn astudio cyfanswm o chwech modiwl:

Mathemateg Pur C1 a C2 yn ogystal â Mecaneg, M1, neu Ystadegaeth, S1 ym mlwyddyn 12 a

Mathemateg Pur C3 a C4 yn ogystal â Mecaneg, M2, neu Ystadegaeth, S2 ym mlwyddyn 13.

O fewn yr amserlen bythefnos mae 5 o wersi Mathemateg Pur a 3 o wersi Mecaneg neu Ystadegaeth.

Mae pob arholiad yn 1½ awr o hyd.

MATHEMATEG PELLACH

Mae'r cwrs yma yn rhoi sylfaen ardderchog ar gyfer pob agwedd o Fathemateg ac ar gyfer astudiaethau pellach mewn prifysgol.

Amlinelliad o'r cyrsiau UG a lefel A yn Mathemateg Pellach:

Mae'r myfyrwyr sy'n dilyn Mathemateg a Mathemateg Pellach fel pwnc dwbl yn astudio cyfanswm o ddeuddeg modiwl:

Mathemateg Pur C1 a C2, Mathemateg Pellach FP1, Mecaneg M1, ac Ystadegaeth S1 ym mlwyddyn 12 a

Mathemateg Pur C3 a C4, Mathemateg Pellach FP2, FP3, Mecaneg M2 ac M3 ac Ystadegaeth S2 ym mlwyddyn 13.

O fewn yr amserlen bythefnos mae 5 o wersi Mathemateg Pur, 3 o wersi Mecaneg, 3 o wersi Ystadegaeth a 5 o wersi Pur Pellach.

Mae pob arholiad yn 1 ½ awr o hyd.

SAESNEG LLEN UG

Bydd y cwrs yn cynnwys dau arholiad, 20% yn un.

Uned Un: (ni chaniateir y testun yn yr arholiad)

- a) Rhyddiaith cyn 1900 (ee Austen, Hardy), darn dadansoddi darn dethol a thraethawd.
- b) Drama (megis Dr Faustus); traethawd.

Uned Dau: (copïau glan o'r testun)

Astudiaeth o ddau fardd (megis Seamus Heaney ac Owen Sheers).

- a) Dadansoddi un gerdd yn fanwl
- b) Cymharu dwy gerdd.

SAESNEG LLEN A2

Bydd y cwrs yn cynnwys dau arholiad ac un elfen o waith cwrs, yr holl yn synoptig, 20% i bob adran.

Uned Tri: a) Barddoniaeth cyn 1900 (ee Chaucer, Keats), dadansoddi un gerdd.
b) Dadansoddi a chymharu dwy gerdd nas gwelwyd o'r blaen.

Uned Pedwar: Shakespeare (ee Hamlet)

- a) Ateb cwestiwn penodol ar ddarn o'r ddrama.
- b) Traethawd.

Uned Pump: gwaith cwrs.

Traethawd estynedig, 2,500 – 3,000 o eiriau, ar ddwy nofel, un wedi ei ysgrifennu cyn y flwyddyn 2000, a'r llall wedi hynny.

SBAENEG L3

Cyflwyniad/Amcanion y Cwrs

Mae'r cwrs Sbaeneg Uwch ac Uwch Gyfrannol yn gyrsiau heriol fydd yn galluogi myfyrwyr i gyfathrebu'n hyderus yn yr iaith dramor. Mae'n gwrs cyflawn yn ei hun sydd hefyd yn darparu sail addas ar gyfer astudiaeth bellach. Datblygir ymwybyddiaeth y myfyrwyr o themau Ewropeaidd yn ogystal ag agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol y pynciau a astudir.

Uwch Gyfrannol (AS)

Uned 1: Arholiad Llafar 12% o Safon Uwch

Dadl a thrafodaeth yn seiliedig ar themâu.

Uned 2: Gwrando, Darllen a Chyfieithu 15% o Safon Uwch

Arholiad Gwrando a Deall, Darllen a Deall a chyfieithiad o'r Sbaeneg.

Uned 3: Ymateb ysgrifenedig 13% o Safon Uwch

Tasgau traethawd yn seiliedig ar un o'r ffilmiau a astudiwyd.

Safon Uwch (A2)

Uned 4: Arholiad Llafar 18% o Safon Uwch

Chyflwyniad a thrafodaeth ar brosiect ymchwil annibynnol.

Uned 5: Gwrando, Darllen a Chyfieithu 23% o Safon Uwch

Arholiad Gwrando a Deall, Darllen a Deall, cyfieithiad i'r Sbaeneg

Uned 6: Ymateb ysgrifenedig 19% o Safon Uwch

Tasgau traethawd yn seiliedig ar un o'r llyfrau a astudiwyd.

Trefniadau Asesu/Sgiliau Allweddol

Mae sgiliau allweddol yn rhan annatod o'r cwrs UG. Yn benodol gall ymgeiswyr ddangos eu gallu i gyflawni agweddau o bob un o'r sgiliau Allweddol canlynol, fel rheol ar lefel 3:

- Technoleg Gwybodaeth,
- Gwellu eich Dysgu a'ch Perfformiad Personol,
- Gweithio gydag eraill.

Trosodd.....

Dyma'r themâu â astudir, gan gyfeirio at Sbaen a gwledydd lle y siaredir y iaith.

Uwch Gyfrannol

Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Sbaeneg ei hiaith. Strwythur y teulu, gwerthoedd traddodiadol a modern, cyfeillgarwch/perthnasoedd. Tueddiadau, problemau a hunaniaeth bersonol ymysg yr ifanc. Cyfleoedd mewn addysg a chyflogaeth.

Deall y byd Sbaeneg. Diwylliant a threftadaeth rhanbarthol yn Sbaen ac mewn gwledydd a chymunedau Sbaeneg eu hiaith. Sbaen a gwledydd America Ladin yng nghyd-destun Ewrop. Llenyddiaeth, celfyddyd, ffilm a cherddoriaeth yn y byd Sbaeneg ei iaith.

Safon Uwch

Amrywiaeth a gwahaniaeth. Mudo ac integreiddio. Hunaniaeth ddiwylliannol ac ymyleiddio. Cyfoethogi diwylliannol a dathlu gwahaniaeth. Gwahaniaethu ac amrywiaeth Y Ddwyr Sbaen: 1936 ymlaen. El franquismo – tarddiad, datblygiad a chanlyniadau. Sbaen wedi'r Rhyfel Cartref – ôl-ffeithiau hanesyddol a gwleidyddol. Rhyfel Cartref Sbaen a'r newid i ddemocratiaeth (a gynrychiolir yn y celfyddydau, sinema, llenyddiaeth, celfyddyd a ffotograffiaeth). Sbaen – dod i delerau â'r gorffennol? "Recuperación de la memoria histórica"

***Ar hyn o bryd manyleb drafft yw hwn ac nid yw o reidrwydd yn fanyleb terfynol.**

SEICOLEG (Cymru)

Wrth astudio seicoleg, byddwn yn ceisio atebion i'r cwestiynau mwyaf dyrys am y meddwl dynol ac am ein hymddygiad. Pam byddwn yn syrthio mewn cariad gyda pherson arbennig? Beth sy'n argymhell pobl i fod yn droseddwr? Pam fod rhai pobl yn dioddef o stres, a beth yw'r triniaethau gorau?

Mae seicoleg yn ceisio ateb cwestiynau fel hyn, sydd yn effeithio ar fywydau pob un ohonom, drwy ddefnyddio dulliau gwyddonol. Golyga hyn arsylwi yn fanwl iawn ar ymddygiad pobl a gwneud arbrofion labordy. Weithiau mae astudio ymddygiad anifeiliaid yn gallu helpu ein dealltwriaeth hefyd. Bydd y wybodaeth a gasglwyd wedyn yn cael ei ddefnyddio er budd dynol ryw, drwy helpu i wella anhwylderau meddyliol, lleihau lefelau trosedd, a hyd yn oed ceisio dangos y ffordd i hapusrwydd! Mae maes seicoleg yn eang, yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol. Bydd yn werthfawr ichi beth bynnag yw'r llwybr y byddwch yn ei ddewis ar ôl yr ysgol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2.

UG (2 uned)

UG Uned 1 Seicoleg: O'r Gorffennol i'r Presennol
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster

Cwestiynau gorfodol yn ymwneud â phum ymagwedd mewn seicoleg, therapïau a darnau clasurol o dystiolaeth ymchwil.

UG Uned 2 Seicoleg: Archwilio Ymddygiad
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster

Adran A: Damcaniaeth Ymchwil

Cwestiynau gorfodol ar ddamcaniaeth ymchwil seicolegol.

Adran B: Dadl Gyfoes

Dewis un cwestiwn o ddau sy'n ymwneud â'r dadleuon a roddwyd.

=====

Safon Uwch (yr uchod yn ogystal â 2 uned bellach)

U2 Uned 3 Seicoleg: Goblygiadau yn y Byd Go Iawn
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
40% o'r cymhwyster

Adran A: Astudio Ymddygiadau

Dewis tri thraethawd strwythuredig o chwe opsiwn.

Adran B: Materion dadleuol

Dewis un cwestiwn o ddau opsiwn sy'n gofyn am archwiliad synoptig o faterion dadleuol seicolegol.

U2 Uned 4 Seicoleg: Dulliau Ymchwil Cymhwysol
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster

Adran A: Ymchwiliad Personol

Un cwestiwn gorfodol yn seiliedig ar weithgaredd ymchwiliol a wnaed cyn yr asesiad.

Adran B: Senarios Newydd

Cwestiynau gorfodol yn gofyn am ymateb i ddarn o ymchwil.

BTEC (Lefel 3): TWRISTIAETH

Cyflwyniad

Mae'r BTEC Lefel 3 yn gwrs sy'n berthnasol iawn i'r byd gwaith yn y diwydiant Twristiaeth, sef un o'r diwydiannau mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Mae myfyrwyr yn dysgu trwy gwblhau cyweithiau ac aseiniadau sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd, gweithgareddau a gofynion byd gwaith go iawn.

Mae'r BTEC Lefel 3 yn cyfateb i Lefel A. Mae'n paratoi myfyrwyr ar gyfer ardal o gyflogaeth arbennig ac yn cynnig y cyfle i astudio pynciau galwedigaethol uwchraddol neu/a chysiau Uwch Gyfrannol. Mae'r cwrs yma yn paratoi disgyblion ar gyfer y nifer o gyrsiau prifysgol yn y maes, neu am swyddi yn y diwydiant Twristiaeth megis Gwestai, Siopau teithio, Reps cyrchfannau a channoedd o swyddi eraill.

Nôd ac Amcanion

Nôd BTEC Lefel 3 Twristiaeth yw cyflwyno'r diwydiant i'r myfyrwyr, a'u galluogi i ddysgu sgiliau newydd a datblygu gwybodaeth am y diwydiant.

Strwythur y Cwrs

Mae'r cwrs yn cynnwys 4 uned graidd a 2 uned arbenigol.

Unedau Craidd

Ymchwilio i'r sector Twristiaeth a Theithio

Y Busnes Twristiaeth a Theithio

Y Deyrnas Unedig fel cyrchfan

Gwasanaeth Cwsmer yn y diwydiant Twristiaeth a Theithio

Unedau Arbenigol

Cyrchfannau Ewrop

Cyrchfannau'r Byd

Asesiad:

Mae pob aseiniad yn cael ei osod a'i farcio gan yr ysgol, a'i fonitro gan arholwyr allanol sy'n graddoli'r gwaith. Nid oes unrhyw arholiadau, gwaith portffolio yw'r cyfan. Felly mae 100% o'r radd derfynol yn dod o waith cwrs, sydd yn apelio at nifer o ddisgyblion.

BTEC Lefel 2 (TGAU) - CHWARAEON (Awyr Agored)

Amlinelliad o'r cwrs BTEC Tystysgrif Gyntaf:

Mae'r cwrs yma yn cyfateb i 2 TGAU . Mae yna bwyslais ar astudio'r hyn sydd yn digwydd yn y diwydiant Chwaraeon Gweithgareddau Awyr Agored, a bydd y disgyblion yn ennill sgiliau er mwyn ymuno a'r diwydiant. Byddwn yn astudio gweithgareddau chwaraeon awyr agored megis canwio, hwylio a dringo, ac yn rhoi'r sgiliau yma i drefnu ac arwain alldaith awyr agored.

Strwythur Asesu:

Does dim arholiadau ar gyfer y cwrs yma, dim ond tasgau a asesir trwy waith cwrs. Dyma'r unedau a asesir:

- Gweithgareddau Awyr Agored
- Trefnu Alldaith
- Sgiliau Hwyllo

* * * *

TGAU - HAMDDEN A THWRISTIAETH

Amlinelliad o'r cwrs :

Mae'r cwrs yma yn cyfateb i TGAU. Mae yna bwyslais ar astudio'r hyn sydd yn digwydd yn y diwydiant twristiaeth, a bydd y disgyblion yn ennill sgiliau er mwyn ymuno a'r diwydiant. Byddwn yn astudio natur y diwydiant ac yn edrych yn benodol ar gyrchfannau gwyliau Y DU, Ewrop a'r Byd.

Strwythur Asesu:

Dim ond un arholiad allanol sydd rhaid sefyll ar gyfer y cwrs yma. Asesir gweddill y cwrs yma trwy waith cwrs yn yr unedau canlynol.

- Y Diwydiant Twristiaeth
- Cyrchfannau'r Deyrnas Unedig, Ewrop a'r Byd

11. Nodiadau